PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 398 | Ebrill 2017



Mwy o Steddfod

t.14



Lansio prosiect

t.7



t.12

Anrhegu Tegwyn

# Llwyddiant!



Ava-Mae Griffiths, 3ydd ar lefaru (Blwyddyn 3-4) nos Wener



Owen Jac Roberts , Rhydyfelin – cyntaf ar y canu a'r llefaru Blwyddyn 3 a 4 dydd Sadwrn



Dau frawd o Gapel Bangor yn ennill dydd Sadwrn – Morgan Jac Lewis – dwy wobr gyntaf yn yr unawd a'r llefaru Bl 1 a 2 a Iestyn Dafydd Lewis - trydydd yn y Llefaru Bl 1 a 2.

Lluniau Arvid Parry Jones



Academi Gerdd y Lli fu'n cystadlu ar y nos Wener

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mai - Deunydd i law: Mai 5 Dyddiad cyhoeddi: Mai 17**

**EBRILL 30** Nos Sul Gŵyl Merêd gyda Glanaethwy, Dai Jones, Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7.30.
MAI 4 Dydd Iau Etholiadau Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned

**MAI 5** Nos Wener Cyngerdd gan Aber Opera: Cyfarwyddwr Cerdd a Chyfeilydd : Alistar Aulde, yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 7.30.

**MAI 6** Nos Sadwrn Cwmni Theatr Maldwyn ac Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno 'Cadw'r fflam yn fyw' yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 8.00

**MAI 14 – 20** Dyddiau Sul i Sadwrn Wythnos Cymorth Cristnogol 2017

**MAI 19** Nos Wener Rasus moch yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor o 7-10.00 dan ofal Emlyn Jones dan nawdd Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol.

**MAI 20** Dydd Sadwrn Bedwen Lyfrau yng Nghanolfan y Celfyddydau

**MEHEFIN 24** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i Dde Ceredigion yng ngofal Jon Meirion Jones. Manylion gan ac enwau i Menna Lloyd Williams 01970 820320 mennallw@gmail.com

**MEHEFIN 30** Nos Wener Caws, gwin a chân yn Eglwys St Elerch, Bont-goch yng nghwmni Côr y Gen (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac artistiaid eraill

# Casgliadau Gwastraff dros y Pasg

Bydd casgliadau gwastraff dros gyfnod y Pasg yn cael eu darparu ar y diwrnodau arferol a fydd yn cynnwys Dydd Gwener y Groglith a Llun y Pasg. Os na fydd y Cyngor yn medru casglu eich gwastraff ar y diwrnod casglu am ba bynnag reswm, byddant yn ei gasglu mor fuan â phosib wedi hynny. Dros gyfnod y Pasg, bydd Safleoedd Gwastraff Cartref ar gau ar ddydd Gwener y Groglith, 14 Ebrill 2017, ac ar agor 10:00yb tan 3:00yp ar ddydd Sadwrn, 15 Ebrill 2017; dydd Sul Pasg, 16 Ebrill 2017; a dydd Llun Pasg, 17 Ebrill 2017.

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Y Borth £100
Cyngor Cymuned Melindwr £100

# Etholiad

Dyma'r rhai sydd yn sefyll etholiad Cyngor Sir Ceredigion ar Fai 3ydd, Bydd y bythau pleidleisio ar agor o 7 y bore tan 10.00 y nos.

**Y Borth**
Hugh Richard Michael Hughes Annibynnol
Kevin Roy Price Plaid Cymru
Ray Quant Annibynnol
Phil Turner-Wright Annibynnol

**Melindwr**
Daniel Rhodri Davies Plaid Cymru
Gordon Patrick Walker Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Tirymynach**
Paul Hinge Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Richard Michael Lucas Plaid Cymru

**Trefeurig**
Dai Mason. Annibynnol Ni fydd etholiad; etholwyd yn ddi-wrthwynebiad


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.



Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mawrth 2017

£25 (Rhif 298 ) Menna Lloyd Williams, Ffrwd Win, Glan Seilo, Penrhyn-coch
£15 (Rhif 207) Richard Huws, Pant-gwyn, Bont-goch
£10 (Rhif 146) Ann Jones, Trem y Ddôl, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre, pnawn Mercher Mawrth 15.

**Diolch i bawb a wnaeth ail-ymaelodi a rhai aelodau newydd felly fe fyddwn yn medru cadw y gwobrau yr un peth am eleni.**
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

## 30 MLYNEDD YN OL



Mr Berwyn Lewis, Cadeirydd Pwyllgor Cyfeillion Cartref Tregerddan ac aelodau eraill o'r Pwyllgor yn trosglwyddo ffwrn meicrodon i'r Ddirprwy Fetron, Mrs Griffiths. Llun: Hugh Jones (O *Dincer* Ebrill 1987)

## TREFEURIG

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Caryl ac Owen Roberts, Bwlchydderwen, ar enedigaeth Gwern Elis Roberts dydd Sadwrn y 25ain o Fawrth.

### Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Gronw Fychan Downes, Glanyrafon, ar ddod yn gyntaf yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd yn y gystadleuaeth unawd pres bl 7-9. Pob hwyl iddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Y BORTH



Gwynt oer a chawodydd trwm yn wynebu cerddwyr ar 21 Mawrth wrth deithio o'r Borth, dros y clogwyn a heibio Brynyrodyn i Ddôl-y-bont ac yn ôl ar lan y Leri, gan ddefnyddio ychydig o lwybrau mwdlyd, er gwaethaf cyngor (call) ein trefnydd i aros ar draciau tarmac.

### Croeso

Croeso cynnes iawn i Kirstie ac Elgan Rees a'r plant Cari, Beca a William, sydd wedi symud o Gapel Seion i fyw yn Fferm Y Rhiwlas. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sara ac Eifion Jenkins, Wileirog, sydd wedi cael merch fach arall. Mae Eleanor siwr o fod wrth ei bodd gyda'i chwaer fach newydd - Leusa Myfanwy. Mae Leusa hefyd yn or-wyres i Mrs. Marjorie Hughes, Tai Gwynion.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor 6 diwrnod yr wythnos Mawrth-Mai (ar gau Llun ond ar agor Gwyliau Banc)
01970 820 050
Pennau

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Madog

**2.00**

*Ebrill*

16 (Sul y Pasg)
23 John Tudno Williams
30 10.00 Oedfa'r ofalaeth yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Parchg Ddr E. Watcyn James

*Mai*

7
14 Y Gymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 5.30
21 John Roberts
28 Beti Griffiths

### Diacon am 50 ml

Y Parchg Wyn Morris ac Alwyn Hughes yn cyflwyno llun gan Ruth Jên i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, i nodi ei 50 mlynedd fel blaenor yng Ngahepl Madog, yn ystod y gwasanaeth brynhawn Sul 19 Mawrth.



# DOL-Y-BONT

### Cydymdeinlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gareth Hughes, The Warren, a'r meibion Andrew, Jason a Nigel ar farwolaeth Lindy Hughes. Bu farw Lindy yn sydyn iawn ddydd Iau, 9 Mawrth yn 73 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yn amlosgfa Aberystwyth ar yr 22ain o Fawrth.

Wrth i'r *Tincer* fynd i'r wasg clywsom y newyddion trist fore Iau 30 Mawrth am farwolaeth Dr. Sandra Pierre. Roedd Sandra yn enedigol o Ffrainc ond roedd wedi byw yn Nôl-y-bont ers peth amser. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i theulu a'i chyfeillion hithau hefyd.

# LLANDRE

### Taith feics noddedig

Ar Ebrill 28 bydd Helen Jones, Aberceiro, yn gwneud taith feics noddedig ar lwybr Mawddach rhwng Dolgellau a'r Bermo i godi arian at Ymchwil Cancr y DU. £250 yw ei nod ac mae hi wedi agor tudalen *JustGiving* ar y we dan yr enw **Jones On A Bike** ar gyfer derbyn cyfraniadau. Bu wrthi'n ymarfer ar ei threic trawiadol ers wythnosau. Pob lwc i ti, Helen!



### Croeso

Croeso i Ted a Gill Olewicz i Landre, o Fryste, ac yn byw nawr yn Nant y Ffawydd (sef hen orsaf y pentref).

### Talwrn y Beirdd

Tîmau Talwrn y Beirdd Tal-y-bont a'r Ship, Caernarfon yn yr ornest yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth. Darlledwyd y rhaglen nos Sul, Ebrill y 9fed, ac mae ar gael ar wefan Radio Cymru am fis wedi hynny - bbc.co.uk/radiocymru Rhes gefn: Ceri Wyn Jones, (Meuryn), Gwyn Jenkins, Phil Thomas, Phil Davies ac Anwen Pierce; rhes flaen: Nici Beech, Arwel 'Pod' Roberts, Elis Dafydd ac Annest Glyn. Tîm y Ship a orfu y tro hwn! Llongyfarchiadau iddynt.



### Clwb 50 Banc Bro Genau'r-glyn

Dyma enillwyr Clwb 50 Banc Bro Genau'r-glyn.

*Ionawr*
1af Mr a Mrs Hugh Davies
2il Owen Watkin
3ydd Llinos Mair Evans

*Chwefror*
1af Gweneira Williams
2il Glyn Williams
3ydd Moss a Jean Jones

*Mawrth*
1af Wynne Melville Jones
2il Eddie Jenkins
3ydd Richard Evans

*Ebrill*
1af Ali Mason
2il Bryn Roberts
3ydd Linda Jones



**CFfI Tal-y-bont enillodd y gystadleuaeth genedlaethol 'Cynulleidfa gyda...' Cawsant gymorth ac fe'u hyfforddwyd gan Catrin Mai, Llandre; Eirwen Hughes, Elen Pen-cwm ac Angharad Fychan.**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau Pen-llwyn

2.00

*Ebrill*

16 (Sul y Pasg)

23 10 J.E. Wynne Davies

30 10.00 Oedfa'r ofalaeth yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Parchg Ddr E. Watcyn James

*Mai*

7 10.00 Rhidian Griffiths

14 Y Gymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 5.30

21 10.00 Gwyn Davies

28 Carwyn Arthur Dyffryn – 5.00

### Pen blwydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mrs Margaret Dryburgh, Murmur y Coed, ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Ymlaen nawr i'r degawd nesaf Margaret.

### Croeso

Croeso cynnes i Jamie, Lucy a Phoebi fach sydd wedi ymgartrefu yn ddiweddar, yn "Arwel" Stad Pen-llwyn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Hefyd yr un croeso i Mr Aled Lewis ,wedi symud i Tanffordd, ac yn gweithio yn IBERS. Hwyl iddo yn ei gartref newydd.

### Rhedeg marathon

Dymuniadau gorau i Rhodri ap Dyfrig, Aberystwyth, fydd yn rhedeg Marathon Trel Cymru er cof am Ned Jones ar 17 Mehefin i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru. Gellir cyfrannu ar justgiving

### Y Pierce iaid a (Richards)

Yn bendant, 'does neb ar ôl sy'n gwybod am ran helaeth o'r goeden deuluol hon. Roedd Maria Haines sydd yn byw ar y bryn rhwng Glyn Ceiriog a Llangollen. yn gyffrous iawn, yn ôl y wybodaith oedd ganddi, a dod o hyd i feddau ei disgynyddion, flynyddoedd maith yn ôl. ( ei hen, hen, hen daid a nain, ei hen hen daid a nain Anne (nee Pierce ) a Thomas Richards.) Hefyd gwybodaeth am ei hen daid yn ogystal, yn blentyn a dyn ifanc , a dod o hyd, i'r union gôr y byddai ef yn eistedd ynddi yn y capel ar y Sul, hyd yn oed y rhif! Dyna i chi ddiddordeb go iawn! Y pryd hynny byddai pawb yn talu am ei gôr, hyn a hyn y flwyddyn. Ni fyddai cronfa y corau ond pitw y dyddiau hyn!

Ganwyd a magwyd ei hen daid (Richard Richards) yng Ngwarcwm, Pen-llwyn,



**Maria Haines yn ymweld â mynwent Pen-llwyn yn ddiweddar.**

lle'r oedd ei rieni, Thomas ac Anne (nee Pierce) yn aelodau o'r capel. Mae' n debyg yr ymunodd hen daid Anne (Tomos Pierce, Cefn-llwyd ) â'r achos pan oedd yr aelodau'n arfer cyfarfod yn Llwyniorwerth Uchaf, cyn codi'r capel cyntaf ym Mhen-llwyn ym 1790. Mae sôn amdano mewn dogfen sy'n disgrifio hanes y capel, pryd y cynhaliwyd yr ysgol Sul yn nhŷ Tomos Pierce am sbelen, cyn codi'r capel.

I dorri yr hanes yn fyr, bu Anne Pierce/ Richards yn byw ym Mhen-llwyn drwy gydol ei hoes. Cafodd Anne a Tomos Richards naw o blant yng Ngwarcwm. Aeth tri ohonynt, (Margaret, Richard. a David) i Bootle, Lerpwl am waith, ac aros yno am weddill eu hoes, yn weithgar iawn yn y capel a daeth Richard Richards yn flaenor.

Priododd taid Maria â Saesnes, a chafodd ei mam ei magu heb lawer o Gymraeg, ac felly roedd rhaid iddi ail ddysgu'r iaith. Rhywbeth yn debyg oedd sefyllfa ei rhieni hithau hefyd, ei thad yn Sais a'i mam yn Gymraes, ond wedi eu geni a'u magu yn Lloegr. Bu Anne Pierce/Richards yn byw ym Mhen-llwyn drwy gydol ei hoes.

Dywedodd y ddiweddar Mrs Eirlys Griffiths, Penlan, fod ei thaid a chwiorydd ei thaid yn dod yn ôl i Ben-llwyn o dro i dro, ac yn aros yn y pentref. Bu farw Nesta a Lal Richards ym 1970 a 1979, a'i thaid ym 1988.Yn ôl y sôn , roedd gan y ddiweddar Eirlys Griffiths hen ddyddiadur gwreiddiol. Tybed a oes rhywun yn cofio unrhyw wybodaeth am hwn?

Dywedodd Maria am gyd-ddigwyddiad fod Anwen Pierce (ysgrifenydd y Tincer) yn gyfnither iddi. A yw hyn yn gywir? Yn ôl Maria roedd wedi ei gweld yn ennill cadair yn Eisteddfod Glyn Ceiriog Powys yn 2014, pryd enillodd hithau y tlws llenyddol, a'i hurddo fe aelod o'r orsedd.

Er fod yr hanes hwn rywfaint yn gymleth ac ond megis crynodeb , hyderwn fod o ryw ddiddordeb i rywun allan fan'yna. Gobeithio hefyd y cawsom y teidiau a'r neiniau yn gywir! Dymuniadau gorau i Maria a phob hwyl a'r goeden deuluol.

### Merched y Wawr Melindwr

Agorwyd ein cyfarfod nos Fercher 4ydd Ebrill gyda Neuadd Pen-llwyn yn llawn o aelodau. Gwahoddwyd chwe changen yn cynnwys Bro-Ilar, Wyre, Llanfarian, Llan-non, Penrhyn-coch a Rhydypennau. O'n blaenau ar y llwyfan Côr y Gen, sef côr Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys 25 o aelodau a'i harweinydd Gwyneth Davies a'i chyfeilydd Carys Evans. Agorwyd y cyngerdd yn hyderus gyda Clod i Dduw. Yna Gwyneth a Carys yn chwarae deuawd piano. Cafodd pawb gyfle i gydganu Fy Iaith, Fy Ngwlad, anthem ein mudiad. Daeth yr egwyl a chyfle i ennill nifer o wobrau raffl.Yn yr ail ran fe wnaeth rhai ohonom adnabod y gân boblogaidd Adele gynt 'I brofi' nghariad i'. Yna deuawd yn chwarae alawon traddodiadol ar y ffidl a dwy eitem lafar cyn codi'n hysbryd hefo 'Ysbryd y nos'. I gloi y rhaglen canwyd anthem ein cenedl. Rhoddwyd y diolchiadau gan Delyth Davies gan dynnu sylw i'r ffaith fod gwaith y Côr o ymarfer amser cinio'n wythnosol yn gyfrifol am safon uchel y cyngerdd. Cafwyd diolchiadau unigol o bob cangen oedd yn bresennol cyn mwynhau cymdeithasu dros luniaeth ardderchog. Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau y ddwy wledd yn fawr iawn.





# Myfyrdod y Pasg

**Newyddion Ffug? Tydi ysbrydion ddim yn bwyta pysgod!**

[41] Roedden nhw'n teimlo rhyw gymysgedd o lawenydd a syfrdandod, ac yn dal i fethu credu'r peth. Felly gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Oes gynnoch chi rywbeth i'w fwyta yma?" [42] Dyma nhw'n rhoi darn o bysgodyn wedi'i goginio iddo, [43]a dyma Iesu'n ei gymryd a'i fwyta o flaen eu llygaid. (Luc 24: 41-43 - beibl.net)

Ydach chi'n credu'r newyddion? Yn dilyn yr holl sôn diweddar am newyddion ffug, mae lle i fod yn llawer mwy sinigaidd a beirniadol o be mae rhywun yn ei ddarllen! Ond nid darllen oedd ffrindiau Iesu yn yr achos yma ond profi rhywbeth go iawn. Er hyn, fe gymrodd beth amser iddyn nhw gredu nad breuddwydio neu weld ysbryd oedden nhw pan ymddangosodd Iesu. Daeth cadarnhad fod Iesu wedi atgyfodi go iawn yn ei gorff pan sylweddolon nhw nad ydi ysbrydion yn bwyta pysgod. Mae'r gred fod Iesu wedi atgyfodi yn greiddiol i'r ffydd Gristnogol. Gan mai perthynas gyda Iesu fel Mab Duw heddiw yw hanfod Cristnogaeth - mae realiti yr atgyfodiad yn allweddol. Dyma ddwedodd Paul wrth y Corinthiaid am y mater:

[17] Ac os na chododd y Meseia, mae beth dych chi›n ei gredu›n wastraff amser – dych chi›n dal yn gaeth i›ch pechodau. (1 Cor 15:17 - beibl.net)

Mae debyg fod llawer ohonom ni'n tueddu i ystyried Iesu yn rhyw ffigwr hanesyddol pell, yn hytrach na rhywun sy'n ennyn 'llawenydd a syfrdandod' ynom ni heddiw. Yn 2017 gallwn brofi'r llawenydd yma wrth gydnabod yr amherffeithrwydd sy'n ein caethiwo ni a rhoi'n ffydd yn y ffaith fod Iesu wedi delio ag o. Trwy farw ac atgyfodi mae Iesu wedi ein rhyddhau ni i fyw bywydau llawn mewn perthynas go iawn gyda gwaredwr sy'n fyw. Rydym ni felly i wneud pethau da, nid er mwyn ennill ei gariad neu ei ffafr, ond mewn ymateb i'r cariad mae Iesu wedi ei ddangos tuag atom ni. Dyma beth ydi rhyddid go iawn. Beth am fentro arno?

**Owain Roberts, Bow Street**

# O'r Cynulliad Elin Jones



Yr wythnos hon fe ddaliais i'r T1C am 8.21 y bore o Aberaeron i Gaerdydd. Dyma'r unig wasanaeth dyddiol (heblaw am ddydd Sul) rhwng Aberystwyth a Chaerdydd. Ym mis Awst llynedd, daeth y gwasanaeth bws 701 blaenorol i ben, pan aeth y cwmni oedd yn cynnal y gwasanaeth i ddwylo'r gweinyddwyr. Ynghyd â defnyddwyr y bws a'r Cyngor Sir, fe wnes i dreulio'r misoedd nesaf yn perswadio'r Gweinidog Trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru i ail ddechrau'r gwasanaeth. Mae angen y gwasanaeth yma, yn enwedig i fyfyrwyr, pobl sydd heb geir a'r henoed sydd yn ymweld â theulu ar hyd coridor yr M4. Roeddwn i'n falch iawn felly pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ei bod am ariannu First Cymru i ddarparu gwasanaeth.

Bron yn syth ar ôl i'r gwasanaeth newydd ddechrau, derbyniais sawl cwyn gan ddefnyddwyr, ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae nifer o etholwyr wedi dweud na fydden nhw'n defnyddio'r gwasanaeth yma eto. Ar ddydd Llun, fe wnes i benderfynu gwneud fy nhaith wythnosol i Gaerdydd gan ddefnyddio›r T1C. Rwy fel arfer yn gyrru lawr i Gaerdydd, ond rydw i wedi defnyddio bws y 701 a'r trên yn y gorffennol. Rwy'n defnyddio›r T1 a'r T5 yn aml hefyd yng Ngheredigion.

Roedd y bws yn hanner llawn yn Aberaeron. Roedd hi'n fore dydd Llun gwlyb a diflas. Roedd y ffenestri wedi stemio lan am y siwrnai gyfan. Roedd yn rhaid i'r gyrrwr sychu'r ffenestri yn nrysau'r bws, er mwyn cael gweld tu fas yn iawn. Roedd y bws hefyd yn oer, a dwi ddim yn berson sy'n teimlo'r oerfel fel arfer, ond erbyn cyrraedd Caerfyrddin roedd fy nhraed fel rhew. Dyw'r bws ddim yn un addas ar gyfer teithiau pell, a dyw e ddim y bws mwyaf cyfforddus. Mae'r fath yma o fws wedi ei gynllunio ar gyfer teithiau byr mewn dinasoedd neu rhwng pentrefi. Does 'na ddim gwregysau diogelwch ar y math bws, a does gen i ddim amheuaeth mae ni oedd yr unig rhai ar yr M4, yn teithio bron i 70milltir yr awr heb wisgo gwregys diogelwch. Gall hyn ddim bod yn iawn, ac mae'n rhaid i mi edrych os yw hyn yn gyfreithiol, dyw e sicr ddim yn dderbyniol.

Mae'n cymryd 4 awr a 35 munud i deithio o Aberystwyth i Gaerdydd ar y gwasanaeth yma. Does yna ddim toiled ar y bws, ac mae rhaid bod hyn yn ei gwneud hi'n amhosib i rai teithwyr ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bws yma'n gymysgedd o bobl sy'n gwneud teithiau hir a theithiau byr. Roedd rhai oedd yn gwneud teithiau gyda bagiau mawr, a doedd dim lle i'w cadw nhw'n iawn. Roedd rhai yn teithio ar y bws i'w gwaith yn lleol, eraill yn mynd i Ysgol Bro Pedr. Roedd llawer yn defnyddio'r gwasanaeth i fynd i siopa yng Nghaerfyrddin. Dim ond nifer fach ohonom oedd yn defnyddio'r gwasanaeth o Geredigion i Gaerdydd. Mae'r bws yn amlwg yn stopio yn Abertawe, mae'n pasio heibio Port Talbot (lle rwy hefyd wedi derbyn cwynion, am fod yr hen wasanaeth yn arfer stopio yno) mae'n stopio ym McArthur Glen ac yna, am ryw reswm, Cyffordd Pencoed. Ar hyd yr M4, mae'r gwasanaeth yma'n pigo lan casgliad o deithwyr sydd am ddal bws i Gaerdydd ond sydd, mae'n debyg, â nifer o opsiynau lleol ar gyfer y diben yma.

Ar yr ochr bositif, cyrhaeddais i Fae Caerdydd ar amser. Roedd fy nghyd-deithwyr yn gyfeillgar, a'r gyrrwr yn barod i helpu. Ond dyna ddiwedd ar yr agweddau positif. Dim toiled, dim gwregys diogelwch, dim gwres ac roedd hi'n bell o fod yn daith gyfforddus. Ar adegau roeddwn i'n teimlo bod dim gwahaniaeth rhyngom ni a lori llawn gwartheg yn hyrddio lawr yr M4. Rwy'n falch, wrth gwrs, fod y gwasanaeth wedi'i ail-ddechrau ym mis Rhagfyr, ond mae eisiau iddo fynd yn ôl i fel yr oedd o dan Lewis Llanrhystud, gyda bws sydd yn ffit i daith hir, gwres, yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi gado adolygu'r gwasanaeth mewn 6 mis, ac fe fydda i'n pwyso am gael yr uwchraddiad yma, gyda'r angen hefyd am wasanaeth 7 diwrnod. Mae pobl Ceredigion yn haeddu gwell na beth sydd ar gael ar hyn o bryd.

## Diolch yn fawr

Dymunaf ddiolch i'r holl ddarllenwyr am fy noddi a'm cefnogi yn fy apêl i godi arian tuag at fy nhaith i Batagonia gyda'r Urdd. O ganlyniad i'r cyngerdd llwyddiannus ym Mhenweddig yn ddiweddar, rwyf yn awr wedi cyrraedd y swm gofynnol.

Diolch am eich cefnogaeth,
Alwen Morris
Maenelin Isaf
Llangwyryfon

# Lansio prosiect treftadaeth arfordirol a newid yn yr hinsawdd

Lansiwyd prosiect ymchwil Ewropeaidd gwerth miliynau o bunnoedd, sydd yn ymchwilio i beryglon newid yn yr hinsawdd o safbwynt tirweddau arfordirol Cymru ac Iwerddon, ym Mhrifysgol Aberystwyth ddydd Iau 23 Mawrth. Gyda chymorth ariannol o €4.1m gan raglen Cymru-Iwerddon yr Undeb Ewropeaidd, mae prosiect CHERISH (Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylcheddau Riffiau, Ynysoedd a Phentiroedd) yn cael ei arwain gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth. Mae dau bartner yn Iwerddon hefyd yn rhan o'r astudiaeth bum mlynedd – Canolfan Archaeoleg ac Arloesi Iwerddon (The Discovery Programme), ac Arolwg Daearegol Iwerddon.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y pentiroedd a'r ynysoedd o amgylch Sir Benfro, Bae Ceredigion a Phen Llŷn, ynghyd â safleoedd ar arfordir de a dwyrain Iwerddon. Defnyddir y technolegau diweddaraf i ddadansoddi archaeoleg yr arfordir a'r ynysoedd a'r safleoedd treftadaeth forol sydd wedi gweld yr effaith fwyaf yn sgîl newid yn yr hinsawdd, erydu arfordirol, stormydd a lefel y môr sy'n codi o hyd.

Bydd y prosiect yn ariannu gwaith cloddio newydd, cofnodi newidiadau amgylcheddol, mapio morol a modelu'r tirwedd. Un o nodau'r prosiect yw datgelu rhai o'r cyfrinachau sydd o'r golwg o dan y dŵr o amgylch Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys hen longddrylliadau.



**Llun o'r awyr o dwyni tywod Ynys-las ger y Borth - sef un o'r ardaloedd dan sylw ymchwilwyr prosiect CHERISH ©RCAHMW**

Mae Dr Toby Driver yn Uwch Ymchwilydd i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru: "Bydd ein cyd-ymchwilwyr yn Iwerddon yn defnyddio cwch ag offer arbennig i gynnal arolygon aml-baladr o dan y môr, a thrwy ddefnyddio'r dulliau mapio morol diweddaraf, byddwn yn gallu casglu delweddau eglur iawn o longddrylliadau a aeth i drafferthion o dan y dŵr mewn mannau fel Sarn Badrig ger Harlech. Bydd rhai wedi bod yno am hyd at bedair canrif, a dyma fydd y tro cyntaf i rai ohonynt gael eu gweld o dan y dŵr.

"Byddwn hefyd yn edrych ar dwyni tywod Niwbwrch yn Ynys Môn, lle dywedir i bentref cyfan gael ei gladdu o dan y tywod gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Ymhlith y lleoliadau eraill bydd Ynysoedd y Moelrhoniaid, Stagbwll ac ynysoedd Sir Benfro yn ogystal â safleoedd ar arfordir Iwerddon."

Bydd Prifysgol Aberystwyth yn cyfrannu at y bartneriaeth drwy ddatblygu cofnodion eglurder iawn o newidiadau amgylcheddol gan ddefnyddio cofnodion gwaddodol a hanesyddol, dan arweiniad Dr Sarah Davies, Darllenydd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (ADGD).

"Mae gwaddodion mewn dyddodion mawn arfordirol, fel y rhai yng Nghors Fochno yn y Borth, yn ogystal ag mewn rhwydweithiau twyni a morlynnoedd, yn darparu cofnod manwl o newidiadau yn yr hinsawdd yn y gorffennol. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y ffordd y mae gweithgarwch stormydd wedi amrywio dros y mil o flynyddoedd diwethaf, a'r gwersi y gall hanes eu dysgu i ni heddiw.

"Dros raddfeydd amser hanesyddol, gall cofnodion dogfennol hefyd ddarparu gwybodaeth werthfawr am natur gweithgarwch stormydd wrth iddo newid – a sut y mae cymunedau wedi ymdopi â byw mewn amgylcheddau arfordirol deinamig," meddai Dr Davies.

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

3 rheswm cadarnhaol dros gefnogi
**Richard Lucas - Tirymynach**

☑ **Profiad** ym maes tai ac amddiffyn gwasanaethau trwy ei waith gyda'r elusen Cymdeithas Gofal Ceredigion

☑ **Ymroddiad** i'w fro fel gwirfoddolwr yn y gymuned a hyfforddwr gyda'r Clwb Pêl-droed

☑ **Ymrwymiad** i helpu pobl yr ardal gyfan os caiff ei ethol i'r Cyngor Sir ar Fai 4.



Richard Lucas — llais cryf lleol i'n cymuned

Hyrwyddwyd gan R.V. Griffiths, 96 Bryncastell, Bow Street, SY23 5DF ar ran Richard Lucas, 94 Bryncastell, Bow Street, SY23 5DF

# PENRHYN-COCH

### Suliau Horeb

*Ebrill*

16 (Sul y Pasg) 2.30 Rhidian Griffiths Bethel yn cydaddoli
23 10.30 Y Parchg Judith Morris ym Methel
30 10.30 Y Parchg Wyn Rh. Morris

*Mai*

7 2.30 Y Parchg Peter Thomas Cymun
14 Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont
21 10.45 Oedfa gymun ddwyieithog yn Eglwys St Ioan – pregethir gan y Parchg Peter Thomas
28 10.30 Rhidian Griffiths

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Ebrill a 10 a 24 Mai. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Darlith Goffa Meredydd Evans

Daniel Huws, *Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?*

Cyhoeddiadau Plas Hendre, 2017 (darlith a draddodwyd yn Chwefror 2016 i Gyfeillion Plas Hendre) 28t. £5 (£4.50 i Gyfeillion Plas Hendre).

Mae darlith Daniel Huws yn anhepgorol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes ac yn gyfraniad hollbwysig i'n dealltwriaeth o'n traddodiad cerddorol. Fel y dywed yr awdur: "Mae'r ddarlith hon yn codi cwestiynau a chynnig syniadau y buasai Merêd wrth ei fodd yn eu trafod am lawer agwedd ar ganu Cymraeg: gwreiddiau'r canu, dechreuad ei gofnodi, tarddiad canu penillion, tarddiad ein dull canu carolau plygain, perthynas ein canu ag eiddo ein cymdogion yn Iwerddon a'r Alban a Lloegr, a pha mor hen yw'r caneuon sy'n weddill i ni."

Mae copïau ar gael gan y cyhoeddwr yn ogystal ag yn y siopau

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Joseph a Gwyneth Evans, Aberystwyth, ar enedigaeth mab - David Joseph - ar Mawrth 25; brawd bach i Annie. Ŵyr i Selwyn Evans, Kairali.

### Pont gerdded newydd ym Mynyddoedd y Cambria

Mae pont newydd i gerddwyr wedi cael ei hadeiladu mewn man croesi pwysig yn uchel ym Mynyddoedd y Cambria. Adeiladwyd y bont – sy'n croesi Nant Glas, sef nant ger Llyn Syfydrin – gan aelodau Cymdeithas Cerddwyr Aberystwyth a



Llanbedr Pont Steffan mewn partneriaeth â Cyngor Sir Ceredigion a Cyfoeth Naturiol Cymru. Saif Llyn Syfydrin tua milltir i'r gogledd o Pen Dam a Llyn Blaenmelindwr.

Mae pont gerdded wedi ei leoli yn y man yma ers degawdau, ond roedd yr un flaenorol wedi dirywio cymaint yn ystod y misoedd diwethaf hyd nes y bu'n rhaid ei chau. Gan fod yr ardal mor boblogaidd gyda chynifer o grwpiau defnyddwyr gwahanol, roedd yn bwysig fod pont gerdded newydd yn cael ei chodi cyn gynted ag y bo modd.

Dywedodd Russell Hughes-Pickering, Pennaeth Economi a Pherfformiad, "Mae cynnal pontydd ar lwybrau'r sir yn holl bwysig i sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau treulio amser yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae ôl gwaith caled ar y bont, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr a staff a wnaeth helpu i'w osod."

Gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru, treuliodd gwirfoddolwyr Cymdeithas Cerdded Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, ynghyd â staff Hawliau Tramwy'r Cyngor, ddiwrnod braf ym mis Chwefror yn gosod y strwythur newydd. Bydd y bont newydd yn caniatáu mynediad diogel i gerddwyr ar hyd llwybr ucheldir yn yr ardal; gyda'i thrawstiau dur dylai oroesi am ddegawdau.

### Wythnos Cymorth Cristnogol

Yn ogystal a'r casgliad tuag at Cymorth Cristnogol eleni (14–20 Mai) cynhelir dau ddigwyddiad yn y pentref wedi eu trefnu mewn cydweithrediad a Eglwys St Ioan a Horeb. Bydd oedfa gymun ddwyieithog fore Sul 21 Mai am 10.45 pan bregethir gan y Parchg Peter Thomas a'r Parchg Lyn Lewis Dafis yn gweinyddu'r cymun; a bydd Cinio Bara Cawl Cymorth Cristnogol yn Horeb amser cinio dydd Mercher 17 Mai rhwng 12.30–13.30. Mae hwn yn ddydd Mercher rhwng coffi yr eglwys (16/5) a'r cinio cymunedol (17/5 a 24/5). Mae angen casglwyr ychwanegol yn y pentref. Os oes rhywun â diddordeb casglu cysylltwch gyda Ceris Gruffudd.



**Priodas**

Dymuniadau gorau i Sioned Huxtable, Y Ddol Fach, a Sion Edwards, Aberystwyth a briodwyd yn Eglwys y Grog, Mwnt, dydd Sadwrn y 25ain o Fawrth.

### Diolch

Dymunaf ddiolch i bawb a fynegodd gydymdeimlad â fy mam a fi ar ôl i ni golli fy nhad, Philip Snowden Foulkes ym mis Chwefror. Bu fy rhieni yn lletya â mi ar wyliau ym Mhenrhyn-coch sawl gwaith dros y blynyddoedd ac roeddynt wrth eu bodd yn aros yma, a daethont i nabod nifer o'r trigolion. Mae'r llu o negeseuon o gydymdeimlad a gawsom wedi bod o gysur mawr i ni i gofio am Dad ac i allu cario ymlaen. Diolch o galon. Haydn Foulkes.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Rhiannon, Cerys a Lisa Humphreys. Y Gelli, ar farwolaeth Wynn yn dawel yn ei gartref dydd Mawrth 30ain o Fawrth. CYnhaliwyd angladd preifat dydd Mawrth 4ydd o Ebrill.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Elsie Morgan, Bwthyn, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Deallir fod Henry Thomas, Cwmfelin yn dal yn anhwylus ac yn gobeithio am driniaeth yn go fuan.

**Cydymdeimlo**
Ein cydymdeimlad dwys â theulu y diweddar Fred Roberts, Ger-y-Llan.

**Merched y Wawr, Penrhyn-coch**
Nos Iau, Mawrth y 9fed, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Elisabeth Wyn, ynghyd â Delyth Ralphs gan mai nhw oedd yng ngofal y noson. Trafodwyd y busnes arferol o fynd drwy yr ohebiaeth a ddaeth i law. Yna fe groesawodd Elisabeth Wyn ein gwraig gwadd, sef Eiddwen Roberts oedd wedi dod i siarad am ei theithiau gyda *"World Vision Zambia"*. Rhoddodd wybodaeth i ni am sefyllfa y bobl oedd yn brwydro i fyw allan yn Zambia, ac fel oedd plant yn diode. Noson roddodd agoriad llygad i amryw ohonom. Gwnaeth apêl i ni fabwysiadu plenty allan yn Zambia, ac fe wnaeth rhai o'r merched hynny.

Diolchwyd i Eiddwen yn swyddogol gan Glenys Morgan a chafwyd cwpanaid a bwffe. Tynnwyd y raffl fisol i ddiweddu'r noson.

**Ymddeoliad hapus**
Dymuniadau gorau i'r Parchg Wyn Rh Morris ar ei ymddeoliad o ofalaeth y Garn ddiwedd Mawrth.

**Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch**
**Tîm 1af**
*17 Mawrth*
Tref Dinbych 3 Penrhyn-coch 2
*11 Mawrth*
Tref y Fflint Unedig 1 Penrhyn-coch 1
*7 Mawrth*
Caersŵs 0 – Penrhyn-coch 3
*4 Mawrth*
Penrhyn-coch 0 – Tref Prestatyn 2
*25 Chwefror*
Gresffordd Athletig 3 – Penrhyn-coch 0
*18 Chwefror*
Penrhyn-coch 0 – Tref Rhuthun 1
*11 Chwefror*
Penrhyn-coch 1 – Cegidfa (Guilsfield) 1

Canlyniadau Menywod
*12 Chwefror*
Penrhyn-coch 4 – Llanbed 1
*5 Chwefror*
Penrhyn-coch 3 – Felin-fach 2

Dydd Sadwrn
8fed Gorffennaf 2016
**Te Hufen a Mefus Eglwys St Ioan**
Penrhyn-coch

# Cyngor Cymdeithas Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 30 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cynghorwraig Sian Jones. Hwn oedd cyfarfod diwethaf y Cynghorydd Paul Hinge cyn etholiad y Cyngor Sir ym mis Mai, a diolchodd i'r Cyngor am bob rhwyddineb a gafodd yn ystod ei dymor fel cynghorydd. Mae Cyngor Tirymynach yn ddiolchgar iddo yntau am ei ofal dros y gymuned yn gyffredinol. Bydd etholiad y Cynghorau Cymuned hefyd ym mis Mai, a manteisiodd y cynghorwyr ar y cyfle i lanw eu ffurflenni ar ddiwedd y cyfarfod.

Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal ar ben lôn Maes Afallen parthed clirio'r gordwf yn ardal y pafin ger y fainc. Bu rhaid i "ddyn adar" ddod bob cam o Fangor a swyddog ar ran y Gefnffordd A487 o Aberystwyth i drafod y sefyllfa gyda rhai o'r trigolion. Cytunodd y "dyn adar" o'r diwedd bod rhaid clirio'r gordwf o'r pafin ac o gwmpas y fainc, gan wneud lle i osod y fainc newydd. Pan dderfydd y tymor nythu bydd yr adran ffyrdd yn torri gweddill y tyfiant. Gadawodd pawb yn hapus a hedfanodd y "dyn adar" parth a'r gogledd!

Cafwyd gwybodaeth am ffens Ysgol Rhydypennau. Tebyg bod y Cyngor Sir yn chwilio am bris cystadleuol gan eu contractwyr cymeradwy, er y gall contractwyr eraill safonol wneud y gwaith yn rhatach. Bydd y Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost wedi penderfyniad yng nghyfarfod mis Chwefror.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Hinge fod y gwaith o ddiogelu llwybr i'r cyhoedd dros bont y rheilffordd ar ffordd Clarach yn dod ymlaen yn llwyddiannus a bydd ar ben yn fuan ar ddechrau mis Ebrill.

Rhoddodd adroddiad am ariannu'r orsaf arfaethedig yn Bow Street, fe ddaw'r cyfan at ei gilydd wedi cyfraniad y Llywodraeth, ac yna ffwrdd a ni!

Cyfarfu PACT yn Neuadd Rhydypennau, a thrafodwyd y broblem parcio ger yr Amlosgfa. Tebyg na ellir gwneud dim ar hyn o bryd, ond gobeithio y daw gweledigaeth yn y man. Roedd gor yrru drwy Bow Street yn broblem arall, ac arwydd T wrth Clos Corwen yn aneglur gan greu trafferth i'r trigolion. Mae angen cyhoeddi PACT yn fwy effeithiol oedd y gwyn gyffredinol.

Gwneir ymholiadau am bolyn newydd i ddal y faner genedlaethol ger mynediad Afallen Deg. A yw'r Cyngor Sir yn fodlon wynebu'r gost? Clywyd bod plant ysgol wedi gwneud tipyn o ddifrod yn iard Garn House yn ddiweddar, plant teuluoedd sydd newydd ddod i fyw yn yr ardal a deallir fod yr Heddlu yn delio gyda'r mater.



Mae'n braf gweld wyneb cyfarwydd wrth siopa yn siop fawr newydd Aberystwyth. Ar ôl graddio mewn Sbaeneg ac Eidaleg ym Mhrifysgol Caerdydd bu Carys Jones, Y Ddôl Fach, yn gweithio i Nwy Prydain yng Nghaerdydd. Gwelodd gyfle cael dychwelyd adref trwy ymgeisio am un o swyddi rheolwyr y siop. Bu Carys yn gystadleuydd ffyddlon ar lefaru mewn eisteddfodau lleol, yn canu gyda Ger-y-lli, ac roedd yng Nghôr Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Croeso gartref Carys!

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Capel Llwyn-y-groes**
Trist iawn oedd clywed am golli y Parchg Gordon MacDonald yn ystod y mis diwethaf. Cawsom lawer iawn o'i gwmni yn y Capel dros y blynyddoedd diwethaf a gwelir ei eisiau yn fawr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. McDonald a'r teulu.

**Urdd y Benywod**
Mae y tymor yn dirwyn i ben a cofiwch am y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan Groeso bore Sadwrn Ebrill 29ain am 11 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i gael syniadau newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

# BOW STREET

**Suliau Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**

*Ebrill*
16 (Sul y Pasg) Aelodau'r eglwys
23 John Tudno Williams
30 10.00 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Parchg Ddr E. Watcyn James

*Mai*
7 J.E. Wynne Davies
14 Y Gymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 5.30
21 John Roberts
28 Beti Griffiths

**Suliau Noddfa**
*Ebrill*
16 10.00. Oedfa Sul y Pasg
23 10.00 Cyfeillach
30 10.00 Oedfa Undebol yn Noddfa

*Mai*
7 Uno yn y Garn am 10.00
14 Y Gymanfa ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00 a 5.30
21 Uno yn y Garn ar gyfer Oedfa Cymorth Cristnogol
28 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau mawr i Martyn a Shan Powell, Maes Ceiro, ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol yn ystod mis Mawrth.

**Croeso Adref**
Mae`n dda deall bod Mr Iwan Davies, Cnwc y Deintur, adref o'r ysbyty wedi llawdriniaeth fawr yn Nhreforys ac wedi cyfnod ym Mronglais hefyd. Pob dymuniad da am adferiad llwyr a buan.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Er bod yr hin yn aeafol, roedd awyrgylch gynnes yng nghyfarfod mis Chwefror o Ferched y Wawr Rhydypennau a gynhaliwyd yn y neuadd nos Lun, 13 Chwefror.

Mae eleni'n flwyddyn arbennig yn hanes y mudiad, gan ei fod yn dathlu hanner can mlynedd ers ei sefydlu yn 1967, a chyfeiriodd y Llywydd, Mrs Ann Jones, at nifer o ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu i nodi'r achlysur. Hefyd, fel rhan o'r dathliadau mae pob aelod yn derbyn Bag y Dathlu, wedi'i gynllunio gan yr artist Ruth Jên o Dal-y-bont, yn anrheg, ac felly fe gyflwynwyd bag i bawb oedd yn bresennol.



Siaradwr gwadd y noson oedd Elgan Philip Davies, a chafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddo ar y testun 'Cerfluniau'r Coleg'. Soniodd yn bennaf am bedwar cerflun sy'n gysylltiedig ag adeilad yr Hen Goleg ar y prom yn Aberystwyth. Mae dau ohonynt i'w gweld y tu allan, sef cerfluniau o Thomas Charles Edwards, prifathro cyntaf y coleg, ac Edward, Tywysog Cymru – yr unig gerflun maint llawn ohono y gwyddom amdano. Yn y cwad y mae'r ddau gerflun arall, sef un o Henry Austin, Barwn Aberdâr, llywydd cyntaf y coleg, a'r llall o Thomas Edward Ellis, y gwleidydd enwog, sefydlydd a llywydd cyntaf Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Coleg Aberystwyth.

Cafwyd llawer o hanesion difyr gan Elgan am noddwyr cynnar y coleg yn ogystal â'r cerflunwyr eu hunain, yn cynnwys hanes lliwgar Mario Rutelli, pensaer o Palermo yn yr Eidal a gynlluniodd y gofeb ryfel drawiadol ger y castell hefyd.

Diolchwyd i Elgan gan Carys Davies, a mwynhawyd paned wedi'i pharatoi gan Annetta Morgan a Delcy Owen. Enillydd y raffl oedd Beryl Hughes, Dolau.

Roedd cyfarfod mis Mawrth o'r gangen, a gynhaliwyd nos Lun, 13 Mawrth, yn ddathliad dwbl. Yn ogystal â dathlu Gŵyl Ddewi, roedd y gangen hefyd yn dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r mudiad.

Croesawyd pawb i fwyty Crefftau Pennau gan Ann Jones, y llywydd, a chyfeiriodd yn arbennig at westeion yr achlysur, sef Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr, ac Elizabeth Evans, Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro.



Mwynhawyd gwledd o gawl traddodiadol a phwdin, ac yna rhannwyd darn o gacen 'Dathlu'r Aur' i bawb. Gwnaed y gacen flasus gan Margaret Roberts a'i haddurno'n gywrain gan Mair Lewis.

Yn ei haraith cyfeiriodd Tegwen at wreiddiau'r mudiad yn y Parc, ger y Bala, ac at nifer fawr o bethau arwyddocaol eraill a ddigwyddodd yn 1967. Soniodd am rai o uchafbwyntiau'r hyn a gyflawnwyd gan y mudiad yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, yn cynnwys codi symiau sylweddol o arian at elusennau. Cyfeiriodd hefyd at rai o'r digwyddiadau niferus a gynhelir i ddathlu'r flwyddyn arbennig hon, yn ogystal â'r nwyddau amrywiol sydd ar gael i nodi'r achlysur.

Yna, rhannodd Elizabeth rai o'r profiadau amrywiol a hwyliog y mae hi wedi'u cael wrth ei gwaith gyda'r mudiad, gan ganolbwyntio ar dair elfen: diolch, dyfalbarhad a doniolwch.

Diolchwyd i Tegwen ac Elisabeth gan Lila Piette, ac enillydd y raffl, sef mwg

'Dathlu'r Aur', oedd Carys Davies. Braf hefyd oedd cael cyfle i bori drwy ambell albwm o luniau o weithgareddau'r gangen dros y blynyddoedd. Ymlaen yn awr i'r hanner can mlynedd nesaf!

**Capel Noddfa**

Mae'n arferiad ers tro bellach bod aelod o'r Capel yn gwirfoddoli i ofalu am drefnu'r gwasanaeth ar un Sul o bob mis yng Nghapel Noddfa. Gall y gwasanaeth fod ar unrhyw thema grefyddol yn ôl dewis y sawl sydd yn trefnu. Cafwyd themâu amrywiol a diddorol ac mae'n wir dweud bod y gwasanaethau yma yn boblogaidd iawn ac yn amrywiol.

Thema mis Mawrth oedd bod yn ddiolchgar am bob braint a dderbyniwn gan sylweddoli anghyfartaledd y gymdeithas yma, ac ar draws y byd. Wedi'r rhan arweiniol cawsom groesawu Daniel Thomas, Croesawdy, Llandre atom. Bu Daniel yn treulio tri mis o Dachwedd 2016 tan Chwefror 2017 yn cyflawni gwaith gwirfoddol (VSO) yn Kathmandu yn Nepal. Cawsom ganddo ddisgrifiad drwy gyflwyniad Power Point ar ei fywyd yn Nepal yn ystod y cyfnod hwnnw. Bu'n byw gyda theulu o'r pentref ynghyd â bachgen arall o Nepal a oedd hefyd ar yr un cynllun, a lle 'roedd yr ysgol y gweithient ynddi.'Roedd hyn mewn ardal wledig ychydig o bellter o'r brifddinas. Bu wrthi yn adnewyddu , peintio, creu ystafell gyfrifadurol, gosod carpedi a dysgu'r plant yn yr ysgol. 'Roedd prosiectau eraill a oedd yn ofynnol iddynt gyflawni gyda'r bobl ifanc ar yr un pryd sef glanweithdra, diogelwch, parch at ferched a mwy. 'Roedd yn amlwg bod Daniel wedi mwynhau'r profiadau amrywiol a gafwyd. Gobeithia hyrwyddo'r gwaith drwy wahoddiadau eraill i roi cyflwyniadau er hybu pobl ifainc eraill i ddilyn ôl ei droed.



**Capel y Garn**

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Elen a Steffan Roberts, Mynydd Gorddu, ar enedigaeth mab, Celt Meredydd ar 10 Mawrth; brawd bach i Lois a Math, ac ŵyr i Rhian Huws.

**Y Gymdeithas Lenyddol**

Daeth tymor y gymdeithas i ben yn Ysgoldy Bethlehem nos Wener, Mawrth 17eg gyda noson gymdeithasol, hwyliog. Ar ôl pryd o gawl cartref a tharten afal cynhaliwyd Eisteddfod Fach Ni Eto gyda Geraint Evans, Tal-y-bont yn tafoli'r gwahanol dasgau. Cyfarfu'r gymdeithas chwe gwaith dros y gaeaf a darparwyd rhaglen amrywiol, ddiddorol ar gyfer y ffyddloniaid.

"Ysbrydoliaeth" oedd testun sgwrs yr awdures a'r dramodydd ifanc Manon Steffan Ross ym mis Chwefror. Soniodd Manon yn hollol onest ac agored am ddylanwad ei theulu a'r broydd lle'i magwyd ar ei gwaith. Yn wir, gellid dweud y byddai "ysbrydoliaeth" wedi bod yn destun addas ar gyfer dau gyfrannwr arall i'r rhaglen. Ei lyfr *Ceredigion, wrth fy nhraed* oedd testun Iestyn Hughes. Mewn orig hynod ddifyr dangosodd Iestyn nifer o luniau o henebion, tirwedd a golygfeydd o wahanol ardaloedd yng Ngheredigion oedd wedi ei ysgogi i gynhychu'r gyfrol. Roedd hyn yn wir hefyd am y "Noson o Bictiwrs" a gynhaliwyd yng Nghanolfan Morlan yn Aberystwyth yng nghwmni Wynne Melville Jones. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Morlan gan fod arddangosfa o baentiadau o eiddo Wynne ymlaen yno ar y pryd. Dywedodd iddo gael ei sbarduno gan ei fam ac Ogwyn Davies ei athro celf yn Nhregaron.

Tipyn o frethyn cartref, ar lafar ac ar gân, gan nifer sylweddol o'r aelodau gafwyd i ddathlu'r Nadolig tra ym mis Ionawr cawsom gwmni Dewi Jones, brodor o Uwchmynydd. Testun Dewi oedd "Bridio defaid o Gymru i Seland Newydd". Cafwyd hanes ei fagwraeth, ei gyfnod fel myfyriwr a'i waith ymchwil yn Aberystwyth ac yn Seland Newydd a hanes sefydlu a datblygu y cwmni rhyngwladol "Innovis", sydd a'i bencadlys yn Peithyll, Capel Dewi gyda Dewi yn Brif-Weithredwr. Gŵr ifanc sydd wedi mentro a llwyddo.

Braf oedd cael cwmni ffrindiau o Gapel Noddfa yn ystod y tymor. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno â ni mis Hydref nesaf.

Enillwyr "Eisteddfod Fach Eto" Cymdeithas Lenyddol y Garn a gynhaliwyd Nos Wener 17 Mawrth 2017 yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. Y beirniad oedd Geraint Evans,Tal-y-bont

Brawddeg ar y gair "**BRECSIT"**

1.Marian Beech Hughes 2.Diana Jones 3.Gareth William Jones

Gorffen limrig

**Tra'n spidio ger Capel y Garn**

**Fe'm daliwyd gan gamra y farn**

1. Dilys Baker Jones 2. Huw Ceiriog Jones 3. Alan Wynne Jones a Bet Evans

Trydar – neges gyfoes, Gymreig sy'n gyfforddus. Dim mwy na 140 o lythrennau.

1. Wynne Melville Jones 2. Marian Beech Hughes 3.Gwynant Evans

Erthygl i'r Papur Bro ar y thema – "**Y Gair Olaf" –** tua 200 o eiriau. (erthygl yn mynegi barn am bwnc llosg)

1.Mary Thomas, Dolgelynen 2.Dilys Baker Jones 3. Eddie Jenkins

5. Esboniad ar darddiad yr enw "**Bow Street"**

1.Gruffydd Aled Williams a Vernon Jones
2 a 3 Gruffydd Aled Williams

# Y Gair Olaf

"Rhaid symud gyda'r oes" – geiriau a glywaf yn aml. Iawn – rwy wedi ceisio fy ngorau i wneud hynny ar hyd fy mywyd. Mi ddysgais yrru car, prynais yr offer diweddaraf i'r gegin, ac er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r byd tu allan, mae gennyf ffôn a set deledu. Ond, bobl bach!, mae'r oes yn symud yn gyflymach bob dydd, a minnau yn mynd yn arafach. Mae'r dulliau cyfathrebu newydd yma dros fy mhen yn llwyr. I hen wraig, dillad sydd ar lein, adar mân sy'n trydar, a'r we yw'r peth cywrain mae'r pry copyn yn ei greu i ddal pryfed. Na, 'does gen i ddim ffôn symudol na chyfrifiadur.

Anogir ni i brynu nwyddau ac i drafod ein harian ar lein. Ai da o beth yw hynny? Pan glywaf am fanciau yn cau ar hyd a lled y wlad, ac y gwelaf siopau gwag ar y stryd fawr, 'rwy'n amau hynny'n fawr. Gofynnaf beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig i'r gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi oherwydd y dyfeisiadau electronig.

'Rwy'n cael ar ddeall fod y fath ddyfeisiadau, yn ogystal â bod yn weision cyflym, yn medru bod yn gyfryngau trais a thwyll hefyd.

Gofynnaf a fydd y gweision yn troi'n feistri, yn rhai, fel peiriannau J. M. Edwards, sydd "heb enaid, heb ymennydd, heb nerf a heb drugaredd".

**Ffugenw: Deilen grin**

**Mary Thomas, Llandre**





Côr yr ofalaeth

**Diolch i Llinos Dafis am y llun o ddosbarth Ysgol Sul Mr D J Morgan, Ebrill 1924 – Ebrill 1925**
**Yn eistedd o'r dde i'r chwith:** Gertrude Mason, Rhydtir; Gladys Edwards, Isgaer; Gladys Jenkins, Bow-Street; D J Morgan, Is-gaer; Nellie Rees, Station; Ceinwen Morgan, Islwyn;

Blodwen Jenkins. **Y rhes ôl o'r dde i'r chwith:** Lizzie Mary Williams; Rosie Mason, Rhydtir;

Olwen Jenkins, Bungalow; Gladys Morgan, Maenuwch; Eluned Davies, Elms; Ena Davies, Bodina; Enid Edwards.

**Capel y Garn**

**Ffarwelio â'r Gweinidog**

Bu diwedd mis Mawrth yn gyfnod arwyddocaol yn hanes Gofalaeth y Garn, am fod ein Gweinidog, y Parchg Wyn Rhys Morris, yn ymddeol ar ôl gwasanaethu am ddeng mlynedd. Fore Sul, Mawrth 19, roedd yn gwasanaethu am y tro diwethaf yng nghapel y Garn fel ein Gweinidog. Gosodwyd naws arbennig y cyfarfod yn y dechrau pan ddarllennodd Lois ac Elin yr emyn 'Dwy law yn erfyn'. Yn ei anerchiad i'r plant, cyn iddyn nhw fynd alllan i'r Ysgol Sul, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cofio, a chymaint o rodd yw gallu galw atgofion i gof. Yna ar ddiwedd ei anerchiad i'r oedolion, cyn ein galw at Fwrdd y Cymun, galwodd y plant yn ôl i ymuno â ni yn y ddefod, profiad a fydd yn aros yn eu cof yn hir.

Wythnos yn ddiweddarach, ar Fawrth 26ain, cynhaliwyd y Cwrdd Gollwng yn y Garn a braf oedd gweld cymaint o aelodau'r capeli a ffrindiau o'r tu allan wedi dod ynghyd. Y Parchedig Llunos Mai Gordon, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro oedd yn llywio'r cyfarfod ac yn gweinyddu Defod Gollwng y Gweinidog.

Cafwyd cyfraniadau teilwng gan gyd-weinidogion ac aelodau o'r gwahanol eglwysi. Offrymwyd gweddi ar ran yr Eglwysi gan y Parchedig Nicholas Bee, a gweddi ar ran y Gweinidog gan y Parchedig Elwyn Pryse.

Yn y Cyfarchiad o'r Eglwysi rhoddodd yr Arglwydd Elystan deyrnged haeddiannol werthfawrogol o'r gŵr oedd "â thinc Pantycelyn a Dafydd Jones o Gaeo yn ei leferydd." Yn y cyfarchiad ar ran yr Henaduriaeth sylwodd y Parchg Roger Ellis Humphreys ar gadernid ei ddaliadau a'i ddiwydrwydd yn ei waith, ymhlith pehau eraill.

Dan arweiniad Alan Wynne Jones canodd côr o blith aelodau'r ofalaeth emyn gan Mrs Dilys Baker Jones ar y dôn Gaerwen, a gyfansoddwyd ar gyfer y geiriau gan yr arweinydd. Darllenodd Vernon Jones soned rymus yr oedd wedi

# Ysgol Gymraeg y Gaiman yn penodi

Roedd yn ddechrau blwyddyn gyffrous i Ysgol Gymraeg y Gaiman fis Mawrth. Rhed blwyddyn addysgol y Wladfa o Fawrth i Ragfyr ac ar ddechrau blwyddyn newydd fe benododd yr Ysgol athrawes o Gymru am y tro cyntaf – diolch i haelioni a chefnogaeth cyfeillion o'r Wladfa a Chymru sydd wedi cytuno i gyfrannu'n ariannol at brosiect newydd.

Yr athrawes gafodd y swydd yw Mirain Dafydd - anwyd yn yr ardal hon pan oedd ei rhieni – Keith a Meleri Davies yn byw ym Maes Afallen, Bow Street – Keith yn athro ym Mhenweddig a Mel yn gweithio yn y Ganolfan Adnoddau Addysg cyn cael y plaent – wedyn yn teipio a chyfieithu ar ei liwt ei hun; roedd hi a Linda Griffiths yn deipyddion y Tincer!. Ganwyd Leah a Mirain yn Bow Street cyn i'r teulu symud i Langefni - pan oedd Mirain yn 10 wythnos oed!

Lle mae nhw heddiw ?

Wel buodd Leah'n gweithio i'r Urdd a bellach yn gweithio I Fenter Caerdydd (ond ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd ar ôl geni Albi bach sy'n rhyw ddeufis oed. Ma hi a'i gŵr yn byw yng Nghaerdydd, fel Steffan - sy'n Swyddog Marchnata yng Nghlwb Ifor Bach. Bu Mirain yn dysgu Saesneg yn Vietnam am ryw flwyddyn cyn dechre yn Y Wladfa. Mae teithio yn ei gwaed.

Mae Cadi yn astudio Tecstiliau ym





Rhai gymerodd ran yn oedfa ffarwelio Y Parchg Wyn Morris

ei chyfansoddi ar gyfer yr achlysur.

Cyflwynodd Alan Wynne Jones dysteb i'r Parchedig Wyn Morris a chyflwynodd Heulwen Lewis rodd i'r Parchedig Judith Morris.

Ar ôl yr holl ddiolch a'r dymuniadau da cafwyd ymateb nodweddiadol o ddiymhongar a gostyngedig gan y cyn-weinidog. Yna, gyda datganiad llawn ardddeliad a chadernid gan y gynulleidfa o'r emyn "I Dduw bo'r gogoniant, fe wnaeth bethau mawr" daeth y cyfarfod i ben, ac ymasglodd y gynulleidfa niferus yn y festri lle roedd chwiorydd eglwysi'r ofalaeth wedi paratoi gwledd ar eu cyfer.

Bu'n noson gofiadwy.

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus hwyr i Gaenor Jones, Hafle, ar gyrraedd oed arbennig yr wythnos diwethaf – gobeithio iddi fwynhau'r dathlu.

### Y Parchedig Wyn Rhys Morris ar ei Ymddeoliad o'r Weinidogaeth, 2017

Megis y gŵr ym mynwent Talgarth gynt,
Synhwyrai'r anadl o'r uchelder mawr
Sy'n dala chwythwm o'r anfeidrol wynt
Gynhyrfa'r ysbryd ar annisgwyl awr,
Ymroes i fedi'r weledigaeth hon
Ar hyd arloesol lwybyr Crist fab Mair
A lledu'r efengylau dwys o'r bron
Wrth hau goleuni yr impiedig air.
Hawddgar a grasol yn ein mysg y bu
Gan barchu yr arswydus swydd â'i ffydd,
Ac megis balm i'r enaid yn y Tŷ
Bu ei oleuni ar wirionedd cudd,
'Rôl rhannu'r swper droeon ar y bwrdd
Bu Crist yn cerdded gyda ni o'r cwrdd.

*Vernon Jones*

### Pen blwydd

Pen blwydd hapus arbennig i Elwyn Owen, 14 Maes Ceiro, ar y 14eg o Fai oddi wrth y teulu a'r cymdogion.



Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer Felicity Haf a Cêt gerddodd yr holl ffordd o Lundain i Aberystwyth. Gadawyd y ddinas fawr ar 23 Mawrth gan gyrraedd Aberystwyth ar Ebrill 5ed. Clywyd hwy yn dweud eu hanes ar raglen radio Geraint Lloyd un noson ac roedd modd eu dilyn ar y cyfrif trydar @GingaTrail icity Haf a Cêt gerddodd yr holl ffordd o Lundain i Aberystwyth. Gadawyd y ddinas fawr ar 23 Mawrth gan gyrraedd Aberystwyth ar Ebrill 5ed. Clywyd hwy yn dweud eu hanes ar raglen radio Geraint Lloyd un noson ac roedd modd eu dilyn ar y cyfrif trydar @GingaTrail

# athrawes o Gymru

Mhrifysgol Brighton – wrth ei bodd yn cynllunio a gwehyddu. Mae Keith yn enw cyfarwydd fel Cynhyrchydd i Radio Cymru ac mae Mel yn dysgu ar y Cynllun Sabothol sy'n rhan o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Symudodd y teulu i Langefni ac wedyn i Gaerdydd lle magwyd Mirain. Graddiodd o Brifysgol Glasgow yn 2013 cyn treulio blwyddyn yn gynorthwy-ydd dysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd. Yna cwblhaodd gwrs i fod yn athrawes Saesneg ail-iaith cyn cael swydd mewn prifysgol yn Beijing, China. Ar ôl hynny bu'n dysgu plant o oedran meithrin-uwchradd yn Hanoi, Vietnam. Fel y gwelir felly mae ganddi gymwysterau dysgu ail-iaith eang, drwy fod wedi mynychu gweithdai a chyrsiau hyfforddi, yn ogystal â phrofiad helaeth o ddysgu ail-iaith i blant, a phrofiad o hyfforddi myfyrwyr. Cyrhaeddodd Mirain y Gaiman yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth; dymuniadau gorau iddi ar ei chyfnod yn y Wladfa.

Mae mwy o gysylltiadau lleol gan mai yr un weinyddodd yr apêl am athrawes oedd Lois Dafydd – hefyd o Maes Afallen! – un fu yn athrawes yn Nyffryn Camwy yn y Wladfa am ddwy flynedd dan y Cynllun Dysgu Cymraeg. Ac yn gofalu am Mirain yn yr ysgol - lle mae yn dysgu ac yn fam i Idris a Mabon , dau o'r disgyblion yna – mae Esyllt Nest Roberts de Lewis- nith Moss Jones, Taigwynion, Llandre.

Cost fawr ar ddechrau'r prosiect oedd tocyn teithio Mirain i'r Gaiman ac mae Cyfeillion yr ysgol yn hynod ddiolchgar i Aled ac Angeles Rees o Teithiau Tango, Aberystwyth, am roi tocyn teithio rhyngwladol dwy ffordd i Mirain. Mae Teithiau Tango yn gefnogol iawn i brosiectau Cymraeg yn y Wladfa ac yn gweithio'n ddiwyd iawn i hyrwyddo'r Wladfa ar ddwy ochr yr Iwerydd. Gwnaeth Brian Williams (o Fae Colwyn) - un o berchnogion Journey Latin America, Llundain gyfraniad hael i dalu am y tocynnau teithio mewnol.

Os oes rhywun â diddordeb i ymuno â phrosiect newydd Cyfeillion Ysgol Gymraeg y Gaiman, byddent yn hynod ddiolchgar o glywed gennych. Y cyswllt yng Nghymru yw loisdafydd@live.co.uk. neu drwy y Golygydd 01970 828017

# Eisteddfod Gadeiriol I

## Y Gadair

Enillydd y gadair oedd Les Barker o Bwlch-gwyn, ger Coed-poeth, Wrecsam. Sais o Fanceinion symudodd i Gymru a dechrau dysgu Cymraeg yn 2005 gydag Ioan Talfryn ac yn ddiweddarach Eirian Conlon. Arferai chwarae pêl-droed pan yn ifanc – ac mae yn dal i fwynhau edrych ar y gêm. Wedi bod o gymorth i gyfaill lunio odliadur cyfrifiadurol a geiriadur arlein. Fe'i hyfforddwyd fel cyfrifydd cyn i'w dalent am y gair ysgrifenedig gael ei ddarganfod. Ar ôl teithio o amgylch gwyliau canu gwerin fel perfformiwr unigol, ac yn hwyrach fel rhan o Band Mrs Ackroyd gyda'r ddwy gantores a dderbyniodd hyfforddiant clasurol, y chwaraewr allweddell Chris Harvey - caniataodd hyn i faledi Les gael eu pefformio yn fyw gan gael ymateb brwd. Ar wahân i deithio Prydain mae wedi perfformio yn Hong Kong, Awstralia, Seland Newydd, UDA a Chanada. Cyhoeddodd dros 77 o lyfrynnau barddoniaeth Saesneg a 7 Cymraeg hyd yn hyn. Dim dyma'r tro cyntaf iddo gystadlu ym Mhenrhyn-coch ond dyma'r chweched gadair iddo ei hennill; enillodd Cadair y Dysgwyr Gogledd Dwyrain Cymru, 2011; Cadair y Dysgwyr yn y Genedlaethol, 2012; ac wedyn yn Eisteddfodau Llandyfaelog 2015, Mynydd y Garreg 2016 a Chrymych 2017. Mae yn aelod o grwp Mrs Ackroyd – er nad yw yn canu a gellir gweld hanes a chlywed y grŵp ar wefanau a You Tube. Gweler www.mrsackroyd.com/ Mae Les yn trydar fel @Lesbardd.




Lluniau Arvid. Parry-Jones

# Penrhyn-coch







### GORWELION

Y mae, rhwng wybren a môr,
hen, hen emyn hawddamor,
heddwch yn ei wahoddiad,
yn ei rodd ef o ryddhad
o'r gad, nac o wlad dan glo.
Mae co' gwresog o groeso
i ni, amser maith yn ôl;
ac ar ffiniau'r gorffennol,
yn bell, mor bell dros y byd,
mae hafan i mi hefyd;
rhwng braw a'r baw, mae bywyd;
un bobl, yn byw ar un byd.

Hen lwybr hir dyfalbarhad
yw hon; lôn ein herlyniad.
Wedi storom y bomiau
cynt, mae'r helynt yn parhau;
delir gan ddwylo'r dilyw,
drycin o foddi neu fyw,
yn araf â'r pererin
o ffens i ffens, croesi ffin
o'i darddle, trwy'r hunlle' hon
yn ddiogel i ddigon,
i harbwr harddach hirbell,
o fyd gwael i fywyd gwell.

Ar wib ac yn ddirybudd,
daw hen Eden i'w ben; bydd
egni'r bys yn croesi'r byd
heno; angau mewn ennyd.
Y daw arfau diderfyn,
yn afon hell, o'r fan hyn,
ac â afon o gyfoeth
ar ei siwrnai i dai'r doeth;
hyd y lein, uno dwy wlad,
daw elw wedi eiliad,
yn olud hael i'r wlad hon,
wylo er hawlio'r elwon.

Ar ei hynt, fel rhuddem gron,
â'r haul, ar draws gorwelion;
hawdd i haul, hawdd i olud;
hawdd i rai; i'r tlawd yn ddrud;
mae hedd a rhinwedd yn rhad,
ond alaeth yw'r rhagdaliad.
Mae'n rhaid i'r amddifaid ddod;
oes gwerth i eisiau gwrthod
eigion o gyfoethogi,
enfys nhw dros gynfas ni?
Hen yw hadau mewnfudiad;
ail-law yw ach unrhyw wlad.

**Agoriad**

### Y FEIRNIADAETH

**Gorwelion**

Cywydd dirdynol sydd yma, ac mae'n cyfeirio at drasiedi'r ffoaduriaid. Y croesi tir a môr peryglus a'r diffyg croeso,

Yn araf â'r pererin
O ffens i ffens, croesi ffin...

Y mae ôl straen ar rai llinellau, yn bennaf o ran mynegiant a chystrawen, ond mae bardd yma sy'n gwybod yn iawn be di be, ac mae'n cynnal y safon yn gampus drwy'r cywydd hir hwn. Mae o hefyd yn goferu llinellau yn gyson drwy'r cywydd. Golyfa hyn fod y stori'n llifo'n ddi-ymdrech drwy'r cyfan. Er, mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi ddeisyfu ambell waith lai o hynny er mwyn gallu sefyll am ennyd i allu sefyll yn ôl ac edrych ar y sefyllfa. Byddai rhagor o gwpledi fel y cwpled clo wedi ei godi i dir uwch eto.

Cŵyn fach iawn ydi honno, ac mae'n bleser cyhoeddi mai Agoriad sydd orau yn y gystadleuaeth a'i fod yn llwyr haeddiannol o'r gadair. **D.J. Pritchard**

**Cyfarch y bardd buddugol**

O'r ŵyl, a thros orwelion – awch a gwyd
o Fwlch-gwyn, gan uno
pob plwy' o Fynwy i Fôn
mewn cân i fardd Manceinion.
**Anwen Pierce**

Unwn yn dyrfa heno- i rannu
Yn rhwydd a di-lidio,
Mynnwn yn glir amenio
Yn frwd ganmoliaeth y fro.
**Peter M Thomas**

## Y Frawddeg

Llongyfarchiadau i Elen Howells, Aber-ffrwd, am ennill cystadleuaeth y frawddeg yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch am lunio y frawddeg hon ar y gair CINIO.

Ci neis, er iddo fwyta iâr Olwen!

# Englyn

**Al Yamamah**. Y mae'r ffug-enw yn awgrymog, oherwydd yn Al Yamamah y bu i Brydain a Sawdi Arabia arwyddo cytundeb mawr i werthu arfau. Mae'r bardd yn awgrymu mai di-werth oedd aberth Hedd Wyn a'r miliynau eraill ym mhob rhyfel gan mai gwneud elw yw prif reswm pob rhyfel, a chan fod rhai bob amser yn elwa, ni fydd byth derfyn ar ryfeloedd. Rwy'n hoffi'r defnydd o Ellis reit ar y diwedd, oherwydd mae'n gwneud yr englyn yn destunol mewn cystadleuaeth fel hon! Ond hefyd mae'n personoli pob un farwolaeth drwy gyfarch yr unigolyn, Hedd Wyn, wrth gwrs, yn yr achos hwn.
**D.J. Pritchard**

### Hedd Wyn

Di-werth oedd aberth y pabis; pobol
Heb obaith, heb ddewis
yn parhau i dalu'r pris;
elw yw'r cyfan, Ellis.
**Les Barker, Coed-poeth**



Llongyfarchiadau i Enid Evans, Llandre am ei llwyddiant yn Eisteddfod Penrhyn-coch. 2il am yr unawd bl.1 a 2, 3ydd am lefaru bl. 1 a 2.



Sara Gibson, un o arweinyddion y Steddfod, yn cyflwyno Cwpan er cof am Mary Thomas, Bronsaint i Efan Williams, Lledrod.



# Tlws Yr Ifanc

**Llŷr Wyn Williams** (ffugenw – Wmffra Lloyd Webber) o Fwlch-tocyn, Aber-soch – myfyriwr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Pwllheli a chyn-ddisgybl o Ysgol Botwnnog enillodd Dlws yr Ifanc eleni! Dyma ddarn o feirniadaeth Huw Foulkes: "Mae 'Chwalu'r Felan' gan Wmffra Lloyd Webber yn sicr yn cyfleu'r teitl i'r dim! Mae yma gyfuniad o offerynnau chwyth, pres, allweddellau a chit drymiau. Mae'r cyfan yn rhythmig yn yr arddull 'blues' priodol ac er bod yma gyfuniad o offerynnau, mae pob un yn cael lle blaenllaw wrth i'r darn ddatblygu. Mae ôl ymdrech a gwaith yma ac er bod ambell adran yn brysur, mae'r offerynnau wedi eu cydbwyso'n dda er mwyn sicrhau nad yw'r cyfan yn swnio'n gymysglyd. Dyma gyfanwaith effeithiol iawn o safon uchel."

Mae Llŷr yn gobeithio mynd i Brifysgol De Cymru yng Nghaerdydd ym mis Medi, i astudio cerddoriaeth. Ei brif ddiddordeb ydi chwarae y sacsoffon a mynd i gigs Cymraeg ar draws Cymru ond mae hefyd yn hoff iawn o bêl-droed ac wedi bod yn gefnogwr brwd erioed o Tottenham Hotspur! Mae yn aelod o'r band roc/indie Cymraeg "Pyroclastig." Mae yna chwech aelod yn y band a daethant yn drydydd yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Mae'n ddiolchgar i Mrs Gwenno Pritchard, ei athrawes Gerdd yn am ei annog i gystadlu. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Cyflwynir Tlws yr Ifanc yn flynyddol – ac fe'i rhoddir am lenyddiaeth a cherddoriaeth pob yn ail flwyddyn. Dyma'r bedwaredd tro ar ddeg iddo gael ei gyflwyno. Roedd chwech wedi cystadlu eleni a'r beirniad oedd beirniad cerdd dydd Sadwrn yr Eisteddfod – Huw Foulkes, Caerdydd. Mae'r Eisteddfod yn trydar ar @eistpenrhyncoch.



Meleri Jones, Caerdydd – llywydd prynhawn Sadwrn. Mae Meleri yn ferch i Delyth a'r diweddar Alwyn Jones, Rhydyrysgaw; magwyd hi a'i chwaer Lowri yng Ngogerddan cyn i'r teulu symud i Lan Ceulan. Ar ôl graddio mewn Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Bangor aeth yn athrawes i Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd – gan symud wedyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, ger Maesteg, lle mae ers ychydig flynyddoedd yn Bennaeth Cynorthwyol. Mae hi a Lowri yn rai gefnogai Eisteddfod Penrhyn-coch pan yn yr ysgol - ac roedd yn dda gweld ei neiaint – Llew a Now Schiavone yn cystadlu prynhawn Sadwrn. Mae Meleri ar Bwyllgor Gwaith ac yn weithgar iawn yn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai ac yn ei haraith gwahoddodd y gynulleidfa i ymweld â'r ardal lle byddai yna groeso cynnes yn ein disgwyl.



Osian Tudur Mills, 1af ar yr unawd a'r llefaru Blwyddyn 1-2 nos Wener

# Colofn Enwau Lleoedd

**To, Clwydau, Lloriau**

Enw'r llednant gyntaf sy'n llifo i gronfa Nant y Moch o'r gorllewin ychydig uwchlaw'r argae yw *Nant To*, ac ar fapiau'r Arolwg Ordnans cyfeirir at ei rhan uchaf fel *Ffos To*.

Rai milltiroedd tua'r gogledd-ddwyrain, dros y ffin yn sir Drefaldwyn, ceir llecyn ar y mynydd agored rhwng Siambr Trawsfynydd a Llyn Bugeilyn, a elwir *Waun To*.


Yr un elfen a welir yn yr enwau *Gwaun y To*, Llanberis, sir Gaernarfon; *Gwern y To*, Caereinion Fechan, sir Drefaldwyn; *Llethr Ffos To*, ger Afon Claerwen, sir Faesyfed; a *Nant Ffos To* yn Llanfihangel Abergwesyn, Brycheiniog.

Ond beth yw eu harwyddocâd? Yr hyn sy'n gyffredin i'r holl lecynnau hyn yw eu bod ychydig yn gorsiog ac yn llawn brwyn, a dyna yw'r allwedd i'r ystyr.

Ers talwm arferid defnyddio brwyn i doi adeiladau a theisi gwair, a byddai enwau lleoedd yn cynnwys yr elfen *to* yn dynodi mannau lle tyfai cyflenwad o frwyn y gellid ei ddefnyddio ar gyfer toi.

Mewn gwirionedd, datblygodd *to* i olygu nid yn unig 'gorchudd allanol uchaf adeilad', ond hefyd 'y deunydd toi' ei hun, er enghraifft 'brwyn'. Ceir tystiolaeth bod ymadroddion megis 'Dyna glwt da o *do* 'fan'na', neu 'Mae 'nhad allan yn torri *to*', ar lafar gynt ym Meirionnydd (*Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* xv. 27).

A dychwelyd yn agosach adref, enw un o ffermydd Bont-goch yw *Llannerchclwydau*. Ffurf luosog yr enw *clwyd* yn golygu 'llidiart ysgafn symudol, giât' sydd yma. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mynnai R. J. Thomas, yr arbenigwr enwau lleoedd, mai llecyn oedd *Llannerchclwydau* lle tyfai gwiail a ddefnyddid i wneud *clwydau*. Mae'n bosibl i *Bantyclwydau*, Llanddewi Abergwesyn, Brycheiniog, dderbyn ei enw am yr un rheswm.




**Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans, 1948. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban**

Dyma ddau fath o enw lle sydd, mae'n ymddangos, yn cynnwys enw'r cynnyrch gorffenedig yn hytrach na'r deunydd crai fel petai.

Wrth ddarllen y llyfryn *Caeau a Mwy: Casgliad Merched y Wawr* a gyhoeddwyd yn y gyfres Llafar Gwlad yn 2014 (t. 14) sylwais ar enghraifft arall bosibl yn yr enw *Cae Lloriau* ar fferm Coeden (oedd gynt yn rhan o ystad Brynddu) ym mhlwyf Llanfechell, Môn. Mae'r disgrifiad o'r cae yn arwyddocâol:

"Defnyddiwyd y graig sydd yn y cae yma i wneud lloriau mewn tai ac adeiladau ar y stad".

Tybed a oes enghreifftiau pellach o'r math hyn o enwau yn ardal *Y Tincer*?

Angharad Fychan

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau 16eg o Fawrth, yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor, gyda Jean Watson yn y gadair. Roedd pawb o'r cynghorwyr yno ond un. Derbyniwyd ymddiheriad oddi wrth Eluned Lewis.

Da oedd clywed bod Pont Rhiwarthen nawr yng Nghynllun Gwella Ceredigion.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am y siec o £100 tuag at y diffibriliwr

Ceisiadau am gymorth ariannol. Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau gan fudiadau lleol a mudiadau cenedlaethol. Dyfarnwyd y grantiau canlynol:

Y Tincer £100. Capel Pen-llwyn £150. Merched y Wawr Melindwr £100. Clwb y Caban, Ysgol Pen-llwyn £175. Ysgol Pen-llwyn £500. Cylch Meithrin Pen-llwyn £200. Sioe Capel Bangor £250. Ambiwlans Awyr Cymru £200, Gofal mewn Galar Cruse £100. Clybiau Ffermwyr Ifainc, Ceredigion £125.

Yn ogystal bydd y Cyngor hefyd yn noddi baneri hysbysebu Clwb y Caban hyd at swm o £325 ac yn noddi Pwyllgor Athrawon a Rhieni, Ysgol Pen-llwyn, efo dathliadau 50 mlynedd yr ysgol hyd at swm o £500.

Mae yn achos pryder i'r cynghorwyr bod rhai gyrrwyr yn anwybyddu arwyddion cyfyngu cyflymder sydd yn yr ardal.

owain bebb a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2017
'Y Williams iawn?':
Golwg newydd ar *Williams Pantycelyn* gan Saunders Lewis
7.30, nos Lun, 24 Ebrill
Yr Athro D. Densil Morgan fydd yn traddodi'r ddarlith eleni ar destun amserol gan fod 2017 yn nodi trichanmlwyddiant geni'r emynydd nodedig hwn. Mynediad am ddim.
Manylion llawn ar wefan Morlan:
morlan.cymru
*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com*

# Charles Ebenezer Phillips 1919 – 2017

Union wyth mlynedd yn ôl ysgrifennais am farwolaeth Marion, gwraig Charles, ar ôl iddi gael cystudd hir. A'r tro hwn dyma deyrnged i Charles y bûm yn ei gwmni'n gyson wedi imi ymddeol a dychwelyd i gartref fy rhieni yn 2002. Erbyn hynny roedd Marion yn wael yng Nghwmcynfelyn ac yntau'n unig heb ei chwmni. Gan ei fod wedi'i fagu ym mhlwyf Uwchygarreg ger y Forge, Machynlleth roedd yn nabod cyfnitherod a chefndryd mam yn fferm y Byrdir ac yn cerdded i Ysgol Blaenpant ac ysgol Sul Soar gyda nhw. Gadawodd yr ysgol yn 13 a gweithio ar amrywiol ffermydd gyda cheffylau gwedd.

Pan oedd yn was yn y Fron, Talerddig byddai'n cerdded y ceffylau i efail Gittins yng Ngharno. Bu'n was gyda John ac Agnes Davies, Felindre, Pennal am 7 mlynedd cyn symud i Alltgoch, Llwyngwril, cyfarfod â Marion organydd y Capel Wesle .Priodwyd nhw yng Nghapel Wesle Tywyn ym 1943 a maes o law ganed Glyn, Merfyn ac Annwen (mae yn Awstralia ers 40 mlynedd). Ar gais Emlyn Evans, y Foel, Maldwyn, (tad Gwynant) daeth Charles a'i deulu i ffermio Elgar ac ymaelodwyd yn y Garn. Cyfnod byr yn Llangeitho, dychwelyd i fwthyn Brongenau, Charles yn gofalu am giatiau'r rheilffordd gerllaw a Marion yn gofalu am Roberts y cyfreithiwr a'i wraig. Daethant yn ffrindiau da i Gwladys James, Llandre, a'i theulu a diolch iddi am fod mor ffyddlon iddo.

Cyfnod byr yn Nhal-y-bont a Llandre, addoli yn y Babell am gyfnod a Marion wrth yr organ ambell waith. Pan ddirywiodd ei hiechyd symudwyd i un o fflatiau Caerfelin, ac yno y bu Charles nes iddo orfod mynd i Gartref Tregerddan, lle canmolai'r cwmni, y bwyd a'r gofal. Symudodd i gartref yn Abertawe yn ymyl cartref Glyn ei fab a Gretta cyn y dolig a bu farw yn Ysbyty Treforys 23 Mawrth, yn 97 oed.

Roedd Charles wedi meistroli 'crefft gyntaf dynolryw' yn ifanc, yn un medrus ac yn gallu troi ei law i ymgymryd ag unrhyw dasg. Daeth hanes ei gynefin yn Uwchygarreg yn fyw iawn imi wrtho iddo adrodd hanes difyr ei deulu a'm teulu innau. Mewn un seiat wrth sôn am dlodi'r teuluoedd soniodd am ei daid Charles Smith yn cael ei garcharu am fis ym 1891 am saethu ffesant ar dir Plas y Forge – ei saethu i fwydo'i deulu.

Pan oedd Charles yn 90 oed aeth Herbert Morgan ei gymydog a minnau ag ef ar daith i Uwchygarreg, oedi'n aml iddo draethu am bobol a ffermydd, heibio Talbont Drain i'r coed ac allan i'r mynydd ger hen fferm Hyddgen. Gadael y car a cherdded nes dod i olwg pen uchaf Llyn Nant-y-moch, ac yntau'n parablu am Locie Talbont Drain, Carn Hyddgen, a Cherrig Cyfamod Owain Glyndŵr. Gresyn nad oedd gennyf beiriant recordio!

Gan na allwn oherwydd salwch wasanaethu yn ei angladd (fel y dymunai) yn yr Amlosgfa 7 Ebrill cymerodd fy ffrind a merch cyfnither Charles, y Parchedig Llunos Gordon, at y gwasanaeth. Claddwyd ei lwch ym medd Marion ym mynwent y Garn. Wrth ddiolch am gyfeillgarwch 'yr hen ŵr mwyn', ein cofion at ei blant ei berthnasau a'i gyfeillion.

**W.J.Edwards**

## GOGINAN

**Newid Aelwyd**

Pob dymuniad da i Peter a Wendy Brookes, Y Goedwig, Cwmbrwyno wrth iddynt symud allan a chroeso i Steve, Maggie a'u mab i'w cartref newydd. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith,

**Croeso**

Rhaid hefyd croesawu Lawrence a Sally Burke a'u plant Tia, Alice a Ralph fel tenantiaid newydd i dŷ Capel Y Dyffryn.

**Dymuniadau gorau**

Dymunwn wellhad buan i Mair Evans, Idris Villa, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar ac yn treulio peth amser yn Ysbyty Bron-glais.



Lewis Johnson yn derbyn un o'i dystysgrifau am y Dafarn Orau am werthu Cwrw iawn yng Ngheredigion.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



**Rhwyfo ger y Wallog**


*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**


## DOLAU

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Rhiannon a Huw Williams, Caerdydd ar enedigaeth merch fach – Morfudd Awel ganol Mawrth; chwaer fach i Melangell Elfair; wyres i Howard a Jen Williams, gynt o Sŵn yr Awel.


Etholiadau Cyngor Sir Ceredigion
4ydd Mai 2017



**Ward Melindwr**

| Rhodri Davies | X |
|---|---|

Plaid Cymru

Hyrwyddwyd gan:Rhodri Davies, Gwalia, Llywernog, Ponterwyd, Aberystwyth, SY23 3AB.




# Ysgol Pen-llwyn

## Rygbi
Bu bechgyn Dosbarth 3 yn chwarae rygbi tag yr Urdd yn Aberaeron ar yr 28ain. Llongyfarchiau mawr ar gyrraedd yr wyth olaf – daliwch ati !

## Prynhawn aml-sgiliau
Bu plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn y Brifysgol ble cawsant gyfle i dreialu amrywiaeth o sgiliau chwaraeon yn cynnwys pêl fasged, rygbi a dawnsio. Bu'n brofiad da o gyd-weithio yn y gwahanol weithgareddau.

## Cit newydd
Diolch yn fawr iawn i Mel a Dan, Exchange Stores, Capel Bangor, am noddi cit chwaraeon newydd sbon i Ysgol Pen-llwyn. Bydd y crysau gleision yn sbardun newydd i'n timau i chwarae eu gorau glas!

## T.T.Rockstars
Dyna olygfa liwgar oedd yn ein haros ar ddiwrnod T. T. Rockstars yn ddiweddar yn gitârs trydan, gwalltiau bob lliw, sbectols a siacedi. Bu twrnament brwd rhwng y rocers drwy'r prynhawn a dyna beth oedd gweiddi a chystadleuaeth danllyd gan droi dysgu tablau yn hwyl a sbri.

## Diwrnod y Llyfr
Braf iawn oedd gweld pob math o gymeriadau wedi gwisgo i fyny ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni. Gwahoddwyd Caryl Lewis atom i ddarllen ei gwaith i ni ac roedd y plant wedi eu cyfareddu a'u hwynebau yn dweud y cyfan. Diolch yn fawr, Caryl, am roi inni'r fath fwynhâd.

**Rhai o ganlyniadau'r Eisteddfod Ysgol**

UNAWDAU
Dosbarth 1: 1af Dylan; 2il Iestyn; 3ydd Gwenno / Issy
Dosbarth 2: 1af Phoebe; 2il Efanna; 3ydd Rhydian / Hedd
Dosbarth 3: 1af Efan; 2il Seren; 3ydd Gwenan / Ana / Deian

LLEFARU
Dosbarth 1: 1af Issy; 2il Gwenno; 3ydd Tami / Manon
Dosbarth 2: 1af Rhydian; 2il Hedd; 3ydd Erin
Blwyddyn 3 a 4: 1af Seren; 2il Deri; 3ydd Efanna
Blwyddyn 5 a 6: 1af Tia; 2il Megan; 3ydd Deian / Owain / Gwennan

LLAWYSGRIFEN
Derbyn: 1af Dafydd; 2il Llinos; 3ydd Emily
Blwyddyn 1: 1af Gwenno; 2il Issy; 3ydd Iestyn
Blwyddyn 2: 1af Enfys; 2il Amelia; 3ydd Ania/Ffion
Blwyddyn 3 a 4: 1af Efanna; 2il Phoebe/ Seren; 3ydd Ana/Charlotte
Blwyddyn 5 a 6: 1af Osian; 2il Megan/ Deian; 3ydd Tia

## Llythyr o Lundain
Annwyl Olygydd,

Pedwar ugain mlynedd yn ôl i'r Pasg hwn, 'roeddwn yn cychwyn, yn anfodlon iawn, fel disgybl yn hen Ysgol Pen-llwyn, ysgol fy mam a'm tad-cu. Roeddwn yn 5 ½ oed ac yr oedd Pen-y-wern, Tal-y-bont, ein cartref, yn rhy anodd i fynd i'r ysgol leol.

Oherwydd mai disgybl anfodlon oeddwn, cawn reid i'r ysgol o gartref fy nhad-cu a mam-gu yn Nolcniw, ar feic y prifathro, Mr E. D. Jones. Cyn hir daeth dwy ferch a oedd yn byw yn gyfagos i lanw'r bwlch ond dal yn anfodlon oeddwn – y peth mwyaf tebyg y teimlwn fy mod tipyn ar ôl yn nosbarth cyntaf Miss Adams.

Cofiaf fy nhad-cu yn sôn fod Syr John Rhys, Meistr Coleg yr Iesu, Rhydychen wedi bod yn dysgu yno fel rhan o'i hyfforddiant. Nid wyf yn siwr a oeddent yn cydoesi, na'i hanes am y "Welsh Not" yn gwahardd y Gymraeg.





Tipyn o fraint i mi pan yn Ygrifennydd Cymru tua 1976 oedd agor yn swyddogol yr ysgol newydd a dymuno yn dda iddi.

**John Morris (Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Morris o Aberafon)**





# Ysgol Rhydypennau

### Chwaraeon

Ar b'nawn olaf fis Mawrth, bu tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol yn cystadlu ar gaeau Blaendolau yn erbyn ysgolion y cylch. Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan ennill y grŵp heb golli gêm. Yn anffodus collodd y bechgyn yn y rownd gyn-derfynol i'r buddugwyr, Llanfarian.

Bu'r merched wrthi yr un pryd yn y Ganolfan Hamdden yn brwydro yng nghystadleuaeth pêl-rwyd y cylch. Ar ôl cystadlu'n frwd, yn anffodus, methodd y merched ennill ddigon o bwyntiau i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol-hen dro!

Aeth aelodau o dîm rygbi'r ysgol lawr i Glwb Rygbi Aberaeron ar yr 28ain o Fawrth. Cystadleuaeth i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac felly roedd y safon yn uchel iawn. Yn ystod gêmau'r grŵp, enillodd y bechgyn dair gêm, collwyd un a chafwyd un gêm gyfartal. Galluogodd hyn i'r bechgyn fynd drwyddo i'r rownd gyn-derfynol, ond er brwydro'n galed colli fu'r hanes yn anffodus. Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r tri thîm am eu hymdrechion campus.

### Ymweliad Addysgol

Ar y 14eg o Fawrth fe aeth plant blynyddoedd 3 i 6 i safle Statkraft yng Nghwmrheidol. Yn unol â gwaith thema'r tymor, pwrpas yr ymweliad oedd dysgu mwy am Drydan ac Egni Adnewyddiadwy. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i ymweld â'r pwerdy, gwyliwyd ffilm am hanes adeiladu cronfa Nant y Moch a chafodd bawb gyfle i ddylunio poster am yr hyn roeddynt wedi ei ddysgu yn ystod yr ymweliad. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig trwy gyfuno mwynhad a dysgu gwybodaeth newydd yr un pryd.

### Cystadleuaeth y Pasg

Diolch yn fawr i'r Parchedig Peter Jones am drefnu a beirniadu cystadleuaeth dylunio delweddau'r Pasg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Tali Mcpherson, Cadi Bowen a Lleucu Siôn am eu dyluniadau buddugol.

### Beicio

Yn ddiweddar ac yn unol â chynllun 'Big Pedal' y Llywodraeth, anogwyd plant yr ysgol i feicio i'r ysgol yn hytrach na dibynnu ar geir eu rhieni. Yn ystod adeg y cynllun, daeth ymwelwyr i'r ysgol er mwyn hybu beicio a diogelwch y ffordd fawr yn gyffredinol. Diolch yn fawr i Sioned Lewis (SUSTRANS), Jim Burke (Dr Beics) a Helen Jenkins am y cymorth a'r cyngor.



Cystadleuaeth 'Y Pasg'



Y tîm rygbi



Cynllun 'Big Pedal'




Y tîm pêl-droed



Ymweliad grŵp o blant â'r pwerdy yng Nghwmrheidol.

### Clwb Cant Ebrill

1af-£25-Susan Herron-Bryncastell.
2il-£15-Margaret Davies-Bow-Street.
3ydd-£10-Llinos Bonsall-Ysgol Rhydypennau

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Ysgol Penrhyn-coch




### Pythefnos Masnach deg / Bore Coffi

Cafwyd pythefnos wych wrth hybu pwysigrwydd Masnach Deg trwy greu siop i werthu nwyddau a chynhaliwyd bore coffi llwyddiannus i'r gymuned. Gwnaethpwyd elw o tua £120 a bydd criw blwyddyn 6 yn rhoi yr arian yn ôl i ffermwyr Affrica.

Llongyfarchiadau i ti Carys hefyd am siarad yn hyderus am y cynllun ar raglen Gary Owen, Taro'r Post –Radio Cymru




### Diwrnod y llyfr

Bum yn ffodus iawn o gael yr awdures Caryl Lewis i mewn i ddarllen nifer o straeon byrion i ddosbarthiadau y Cyfnod Sylfaen. Mwynheuodd y plant a'r athrawon yn ei chwmni ac roedd pawb wedi ymgolli mewn byd ffantasi!

### Kerbcraft

Mae disgyblion blwyddyn 1 eisioes wedi cychwyn ar gynllun 'Kerbcraft' lle maent yn dysgu am ddiogelwch y ffordd





### Gweithdy Gwyddoniaeth

Diolch i Mr. Huw Bonsall am gynnal gweithgaredd gwyddonol ar drychfilod ar gyfer yr wythnos Gwyddoniaeth. Roedd plant a staff CA2 wedi mwynhau mas draw.

### Gŵyl aml sgiliau

Aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i fwynhau Gŵyl aml sgiliau yn y brifysgol yn ddiweddar trwy gynllun 'Active Ceredigion'.

### Gweithdy Sgiliau

Mae adran y Cyfnod Sylfaen yn peilota cynllun sgiliau corfforol i Sir Geredigion (Ceredigion Actif ) Hoffwn ddiolch i'r rhieni sydd wedi ymrwymo i'r cynllun trwy ymarfer sgiliau corfforol yn y cartref. Mwynhewch y gweithgareddau sydd yn eich bagiau!

### Comic Relief

Eleni eto cafwyd Ysgol gyfan mewn coch - diolch am eich cyfraniadau at achos da.

### Disgyblion newydd

Hoffwn groesawu brawd a chwaer newydd - sef Matthew a Sophie Oliver. Maent wedi ymgartrefu yng Nghapel Dewi yr holl ffordd o Seland Newydd! Croeso cynnes i chi!


**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
**01970 828454**
lindagriffiths01@btinternet.com

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Diwrnod y Llyfr

Dathlwyd "Diwrnod y Llyfr" eleni yn yr ysgol wrth i'r plant wisgo i fyny fel cymeriadau allan o'u hoff lyfr. Roeddent yn edrych yn wych! Hefyd bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn Llyfrgell Aberystwyth yn gwrando ar storïwr difyr, gwneud amryw o weithgareddau diddorol a chael cyfle i bori drwy lyfrau o'u dewis.




### Ennill Cystadleuaeth Waterstones – Ysgrifennwyr o fri!

Cymerodd plant Cyfnod Allweddol dau ran mewn cystadleuaeth gyda siop Waterstones. Y gystadleuaeth oedd i ysgrifennu adolygiad o lyfr, ac mi ddaethant yn fuddugol gan ennill llyfrau darllen newydd i'r ysgol.

### Ffair Wyddoniaeth

Aeth plant Cyfnod Allweddol dau i Ffair Wyddoniaeth a gynhaliwyd yn y Brifysgol. Cawsant gyfle i fynd o amgylch y gwahanol stodinau diddorol er mwyn ehangu ei gwybodaeth am wyddoniaeth.

### Diwrnod Trwynau Cochion

Ar ddiwrnod y Trwynau Cochion cynhaliodd yr ysgol "Ddiwrnod Gwalltau Gwyllt" gan i'r plant ddylunio ei gwalltiau yn wyllt, o bob siap a lliw er mwyn codi arian tuag at yr elusen da. Creadigol iawn!





# Llythyrau

**Annwyl Olygydd,**
Mae cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ym mhob cwr o Gymru yn gwneud gwaith hollbwysig gyda phlant bach. Ceir cyfle, gyda seremoni wobrwyo Mudiad Meithrin, i gydnabod, diolch a dathlu rhagoriaethau'r cylchoedd hyn.

Os yw darllenwyr eich papur yn gwybod am unigolion (yn staff neu'n wirfoddolwyr) sy'n gweithio'n ddygn mewn cylch lleol, beth am eu henwebu?

Gall unrhyw un enwebu unrhyw un ac mae'r holl fanylion a'r ffurflenni enwebu ar gael o www.meithrin.cymru/enwebu, trwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio post@meithrin.cymru. Mae'r dyddiad cau ar 1 Mai eleni.

Mawr obeithiaf y daw llu o enwebiadau o bob cwr o Gymru sy'n amlinellu rhagoriaethau'r cylchoedd gerbron y panel dyfarnu.

Ar fater arall, mae Mudiad Meithrin yn cynnal Parti Pyjamas Mwyaf y Byd ar 9 Mai eleni gan anelu at dorri record y byd o 2,004 o bobl yn cymryd rhan. Os oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn cymryd rhan boed hynny yn y gwaith, mewn ysgolion neu yn unrhyw le arall, anfonwch lun at post@meithrin.cymru neu os hoffech gyfrannu'n ariannol at y Mudiad, gellir gwneud hynny trwy'r wefan www.justgiving.com/Mudiad-Meithrin neu trwy anfon neges destun at PYJA45 gyda'r swm yr hoffech ei gyfrannu i'r rhif 70070.

Yr eiddoch yn gywir,
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Cadeirydd Mudiad Meithrin

**Annwyl Olygydd,**
Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, sy'n dychwelyd yn y gwanwyn am gyfres arall.

Y tro hwn, bydd ein garddwyr, Iwan a Sioned Edwards yn ymadael yn achlysurol â'u gardd yn Sir Ddinbych i gynnig help llaw i arddwyr sy'n chwilio am gymorth i gwblhau rhyw joban neu 'i gilydd yn yr ardd, a hynny tra'n sgwrsio'n gyffredinol am arddio wrth gwrs!

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Ac ar wahân i'r garddio, mae eitemau sy'n hybu ein gwerthfawrogiad o'r natur sydd o'n cwmpas yn rhan allweddol o'r gyfres wrth gwrs, gyda phwyslais arbennig ar gadwraeth. I'r perwyl yma, bydd Meinir Gwilym unwaith eto yn ymweld â lleoliadau difyr, i gyfarfod ag unigolion neu grwpiau, ac i ryfeddu ar rywogaethau – planhigiol ac anifeilaidd! – ymhob cwr o'r wlad.

Felly, yn arddwyr neu'n naturiaethwyr, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad os oes unrhyw beth yr hoffen nhw ei rannu gyda'r gymuned ehangach ar draws Cymru.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685300 neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,
Tîm Garddio a Mwy
Cwmni Da,
Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SR
01286 685300
cwmnida.tv

# Tasg y Tincer

Ry'n ni wedi cael pob math o dywydd yn ystod yr wythnosau diwetha – heulwen, gwynt a chenllysg! Dyma pwy fu'n lliwio'r llun yn ystod y mis: Osian Ifan Mason Lewis, Tal-y-bont; Owain Llŷr Hywel, Bow Street; Catrin Davies, Penrhyn-coch; Einion Davies, Llanilar; Lucie Medhurst, Penrhyn-coch; Dylan Herron, Bow Street; Amelia Welsby, Penparcau; Seren Lockyer, Penrhyn-coch.


Dy enw di, **Owain**, ddaeth o'r het yn gyntaf y tro hwn. Llongyfarchiadau!

Mae gwyliau'r Pasg bron â chyrraedd! Falle y byddwch yn mynd ar helfa wyau, neu'n addurno wy i'w roi i ffrind neu aelod o'r teulu, neu – gorau oll – yn derbyn wy siocled mawr. Mmmm! Dathlu bod Iesu wedi dod yn fyw, wedi iddo gael ei roi ar y groes, a wnawn ni adeg y Pasg, ac mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd ac o obaith. Bydd rhai ohonon ni'n cael cwningen siocled. Ond beth yw'r cysylltiad rhwng cwningod a'r Pasg? Un o ffrindiau gorau Eostre – duwies y gwanwyn – ganrifoedd maith yn ôl, oedd sgwarnog, ac mae'n bosib mai o'r stori honno y daeth y traddodiad. Mae gennym ni'r Cymry ein santes ein hunain oedd hefyd â sgwarnog yn ffrind iddi, sef Melangell. Achubodd Melangell y sgwarnog rhag cŵn hela ffyrnig Brochwel, tywysog Powys. Mae hi wedi'i chladdu yn eglwys Pennant Melangell ger Llangynog. Beth am fynd yno yn ystod gwyliau'r Pasg? Mae'n lle arbennig iawn.

Y mis hwn, rhowch gynnig ar liwio llun y gwningen yng nghanol yr wyau. Fedrwch chi gyfri sawl wy sydd yno? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol:
Tasg y Tincer,
3 Brynmeillion,
Bow Street,
Ceredigion
SY24 5BP erbyn
Calan Mai (1 Mai).
Pasg hapus a hwyl am y tro!


Owain

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 398 | EBRILL 2017*